

Deall effaith y pandemig ar ddarpariaeth
llythrennedd mewn ysgolion yng Nghymru.

Ymchwil

Rhif dogfen ymchwil:77/2023
Dyddiad cyhoeddi: Medi 2023

Deall effaith y pandemig ar ddarpariaeth llythrennedd mewn ysgolion yng Nghymru.

Cynulleidfa

Llunwyr polisi Llywodraeth Cymru; ymarferwyr sy'n gyfrifol am gefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol; awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; cyrff cenedlaethol a lleol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn hybu a chefnogi iechyd emosiynol/meddwl plant a phobl ifanc.

Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn ymchwilio i'r ddarpariaeth ddarllen ar gyfer plant ysgol mewn ysgolion cynradd prif ffrwd ac ysgolion ADY cyn y pandemig COVID-19, yn ystod y pandemig a'r arfer presennol. Gwneir argymhellion mewn ymateb i'r canfyddiadau.

Awduron: Roberts-Tyler, E. J., Hulson-Jones, A., Tiesteel, E., Sultana, F., May, R., & Hughes, J.C

Camau i'w cymryd

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion wedi cael eu bwydo'n ôl i Lywodraeth Cymru er mwyn iddynt eu hystyried.

Gwybodaeth bellach

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Drs Roberts-Tyler, E. J., & Hulson-Jones, A.
Ysgol Gwyddorau Addysgol
Prifysgol Bangor

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:



@WG_Education



Facebook/EducationWales

Copïau ychwanegol

Gellir cyrchu'r ddogfen hon o wefan Llywodraeth Cymru yng nghyfeiriad y wefan [rhowch gyfeiriad y wefan o ble y gellir cael rhagor o gopïau]

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Cynnwys

Rhestr o Ffigurau	Error! Bookmark not defined.
Eglurhad o dermau	Error! Bookmark not defined.
1. Crynodeb gweithredol	9
2. Cyflwyniad	14
3. Adolygiad llenyddiaeth	16
4. Nodau ymchwil a chwestiynau	25
5. Dulliau	26
6. Canfyddiadau'r arolwg	33
7. Canfyddiadau cyfweiliadau ansoddol	59
8. Casgliad a chyfyngiadau	76
9. Argymhellion	80
Cyfeiriadau	Error! Bookmark not defined.
Atodiadau	Error! Bookmark not defined.
ATODIAD A: Arolwg ysgolion prif ffrwd	Error! Bookmark not defined.
ATODIAD B: Arolwg Ysgolion ADY	Error! Bookmark not defined.
ATODIAD C: Tablau Ychwanegol	Error! Bookmark not defined.
ATODIAD D: Data gyda Chyfwng Hyder a niferoedd sylfaen (arolwg ysgolion prif ffrwd)	Error! Bookmark not defined.

Rhestr o Dablau (Atodiad B)

- Tabl 1** Adrannau'r arolwg wedi'u cwblhau gan athrawon mewn ysgolion cynradd prif ffrwd.
- Tabl 2** Adrannau arolwg wedi'u cwblhau gan athrawon mewn ysgolion ADY.
- Tabl 3** Cyfweld cyfranogwyr ar gyfer ysgolion prif ffrwd ac ADY, iaith y ddarpariaeth, a grŵp oedran y dysgwyr.
- Tabl 4** Cyfran yr ysgolion cynradd prif ffrwd sy'n adrodd am bob diffiniad o 'yn yr ysgol' yn ystod y cyfnod clo cyntaf a'r ail gyfnod clo.
- Tabl 5a** Cyfran yr ysgolion cynradd prif ffrwd a adroddodd am bob categori presenoldeb 'yn yr ysgol' yn ystod pob cyfnod clo.
- Tabl 5b** Cyfran yr ysgolion ADY a adroddodd am bob categori presenoldeb 'yn yr ysgol' yn ystod pob cyfnod clo.
- Tabl 6** Categoriadau'r rhaglenni a'r ymyriadau Saesneg a Chymraeg a ddefnyddiwyd yn ôl adroddiadau ar draws ysgolion cynradd prif ffrwd ac ADY.
- Tabl 7** Themâu ac is-themâu o'r cyfweiliadau lled-strwythuredig.

Rhestr o Dablau (Atodiad C)

- Tabl 8** Cyfran y dysgwyr yr adroddir eu bod yn yr ysgol o bob Cyfnod Allweddol ar gyfer ysgolion cynradd prif ffrwd yn ystod y ddau gyfnod clo.
- Tabl 9a** Nodweddion dysgwyr mewn ysgolion cynradd prif ffrwd yn ystod pob cyfnod clo o gymharu â nodweddion cyn-bandemig.
- Tabl 9b** Nodweddion dysgwyr mewn ysgolion ADY yn ystod pob cyfnod clo o gymharu â nodweddion cyn-bandemig.
- Tabl 10a** Blaenoriaethu gwahanol grwpiau dysgwyr ar gyfer lle mewn ysgolion cynradd prif ffrwd yn ystod pob cyfnod clo.
- Tabl 10b** Blaenoriaethu gwahanol grwpiau dysgwyr ar gyfer lle mewn ysgolion ADY yn ystod pob cyfnod clo.

- Tabl 11** Rhaglenni darllen Saesneg ac ymyriadau a ddefnyddir gan ysgolion cynradd prif ffrwd.
- Tabl 12** Rhaglenni darllen Cymraeg ac ymyriadau a ddefnyddir gan ysgolion cynradd prif ffrwd.
- Tabl 13** Rhaglenni darllen ychwanegol ac ymyriadau a ddefnyddir gan ysgolion ADY.
- Tabl 14** Darpariaeth o dechnoleg a deunyddiau ar gyfer dysgwyr gartref
- Tabl 15** Adroddiad ynghylch i ba raddau yr oedd rhieni a gofalwyr darllenwyr a oedd yn cael anhawster yn helpu plant i gyrraedd targedau darllen

Rhestr o Dablau (Atodiad D)

- Tabl 16** Effaith y cyfnodau clo cyntaf a'r ail ar y ddarpariaeth ddarllen i ddysgwyr yn y cartref (ysgolion cynradd prif ffrwd).
- Tabl 17** Adroddiad ynghylch effaith wahaniaethol ar ddarpariaeth cyfrwng Saesneg a Chymraeg (ysgolion cynradd prif ffrwd).
- Tabl 18** Effaith ar ddarpariaeth darllen i ddysgwyr mewn ysgolion (ysgolion cynradd prif ffrwd).
- Tabl 19** Effaith gyffredinol y pandemig ar sgiliau darllen dysgwyr gartref ac yn yr ysgol (ysgolion cynradd prif ffrwd).
- Tabl 20** Effaith wahaniaethol ar sgiliau darllen a hyder dysgwyr gartref o gymharu â dysgwyr yn yr ysgol (ysgolion cynradd prif ffrwd).
- Tabl 21** Cyfnod caffael ac effaith darllen (ysgolion cynradd prif ffrwd).
- Tabl 22** Nodweddion dysgwyr ac effaith (ysgolion cynradd prif ffrwd).
- Tabl 23** Lefelau ymgysylltiad dysgwyr gartref yn ystod y pandemig (ysgolion cynradd prif ffrwd).
- Tabl 24** Rhwystrau a hwyluswyr i ymgysylltu ar gyfer dysgwyr gartref (ysgolion cynradd prif ffrwd).
- Tabl 25** Maint yr aflonyddwch parhaus a'r effaith ar y ddarpariaeth darllen a sgiliau (ysgolion cynradd prif ffrwd).

Rhestr o Ffigurau

- Ffigur 1** Effaith y cyfnodau clo cyntaf a'r ail ar y ddarpariaeth ddarllen i ddysgwyr yn y cartref (ysgolion cynradd prif ffrwd).
- Ffigur 2** Adroddiad ynghylch effaith gwahaniaethol darpariaeth cyfrwng Saesneg a Chymraeg (ysgolion cynradd prif ffrwd).
- Ffigur 3** Effaith ar ddarpariaeth darllen ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion (ysgolion cynradd prif ffrwd).
- Ffigur 4** Effaith gyffredinol y pandemig ar sgiliau darllen i ddysgwyr gartref ac yn yr ysgol (ysgolion cynradd prif ffrwd).

- Ffigur 5** Effaith wahaniaethol ar sgiliau darllen a hyder dysgwyr yn y cartref o gymharu â dysgwyr yn yr ysgol (ysgolion cynradd prif ffrwd).
- Ffigur 6** Cam caffael darllen ac effaith (ysgolion cynradd prif ffrwd).
- Ffigur 7** Nodweddion dysgwyr ac effaith (ysgolion cynradd prif ffrwd).
- Ffigur 8** Lefelau ymgysylltiad dysgwyr yn y cartref yn ystod y pandemig (ysgolion cynradd prif ffrwd).
- Ffigur 9** Rhwystrau a hwyluswyr i ymgysylltu â dysgwyr gartref (ysgolion cynradd prif ffrwd).
- Ffigur 10** Maint yr aflonyddwch parhaus a'r effaith ar ddarpariaeth a sgiliau darllen (ysgolion cynradd prif ffrwd).
- Ffigur 11** Llinell amser gweledol o ddau brif gyfnod clo Covid.

Eglurhad o dermau

Roedd casglu data ar gyfer yr adroddiad hwn yn rhagddyddio rhai newidiadau sylweddol yn y ffordd y mae addysg yng Nghymru wedi'i strwythuro, a sut rydym yn cyfeirio at rai dysgwyr.

Cwricwlwm i Gymru: camau dilyniant

Ers i'r astudiaeth hon gael ei chynnal, nid yw'r term 'Cyfnod Allweddol' bellach yn cael ei ddefnyddio i gategoreiddio cyfnod penodol o ddysgu. Mae'r term 'camau dilyniant' bellach yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio cynnydd dysgwyr ar hyd continwwm dysgu rhwng 3 ac 16 oed.

Drwy gydol yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio'r termau 'Cyfnod Sylfaen', a 'Cyfnodau Allweddol 2 - 4', sy'n adlewyrchu'r strwythur a'r defnydd iaith ar adeg casglu'r data. Gweler isod am esboniad o ystodau oedran y dysgwyr rydym yn cyfeirio atynt wrth ddefnyddio'r termau hyn.

Cyfnod sylfaen (Cyfnod Allweddol 1 yn flaenorol): dysgwyr rhwng 3 a 7 oed

Cyfnod Allweddol 2: Dysgwyr rhwng 7 ac 11 oed

Cyfnod Allweddol 3: Dysgwyr rhwng 11 a 14 oed

Cyfnod Allweddol 4: Dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae'r Ddeddf ADY yn disodli'r termau 'anghenion addysgol arbennig (AAA)' gyda 'anghenion dysgu ychwanegol (ADY)' yng Nghymru. Mae ADY yn cynrychioli categori ehangach o ddysgwyr na'r defnydd nodweddiadol o AAA mewn cyd-destunau eraill yn y DU. Fodd bynnag, defnyddir ADY drwy gydol yr adroddiad hwn, wrth adrodd ar ganfyddiadau'r astudiaeth gyfredol, a'r llenyddiaeth ehangach a'r cyd-destun polisi sy'n ymwneud â dysgwyr a fyddai'n cael eu categoreiddio fel y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru.

Ysgolion hwb neu safleoedd

Yn ystod y pandemig, arhosodd peth darpariaeth addysgol ar agor i ddysgwyr bregus a phlant gweithwyr hanfodol. Fodd bynnag, nid oedd pob ysgol yn parhau ar agor ar gyfer y ddarpariaeth hon. Mewn achosion o'r fath, byddai dysgwyr yn gallu mynychu ysgol hwb neu safle yn hytrach na'u hysgol arferol. Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, adroddwyd mai dim ond 34% o ysgolion Cymru oedd ar agor i ddysgwyr oedd angen mynychu; mae hyn yn gyfran llawer is nag yn Lloegr, ond yn uwch nag yng Ngogledd Iwerddon neu'r Alban (Sibieta & Cottell, 2020).

1. Crynodeb gweithredol

Cyflwynir synthesis o ddata o arolwg ar-lein a chyfweliadau lled-strwythuredig, gyda'r nod o: 1) archwilio addysgu darllen mewn ysgolion cynradd ac ADY cyn, yn ystod ac ar ôl pandemig; 2) archwilio effaith y pandemig ar gynnydd a chyrhaeddiad darllen; 3) crynhoi arfer cyfredol mewn perthynas â thystiolaeth ymchwil gyfredol, a nodi meysydd allweddol ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.

Er y bu aflonyddwch ychwanegol ar ffurf cyfyngiadau symud lleol pellach, cyfnod atal byr a dychweliadau graddol mewn rhai ardaloedd o Gymru, roedd dau gyfnod penodol o gau ysgolion eang a nodwyd yn yr astudiaeth hon. Roedd y cyfnod clo cyntaf rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020, a'r ail gyfnod clo oedd Ionawr - Mawrth 2021.

1.1 Effaith y pandemig ar y ddarpariaeth ddarllen

Holwyd athrawon am eu darpariaeth ddarllen cyn, yn ystod, ac ar ôl y pandemig. Cyn-bandemig, adroddodd athrawon eu bod yn defnyddio ystod eang o ymyriadau darllen, rhaglenni ac adnoddau (36 ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, 52 ar gyfer CA2, ac 11 ar gyfer ysgolion ADY). Nodwyd 4 adnodd Cymraeg hefyd.

Roedd rhai o'r strategaethau/adnoddau hyn ar-lein yn bennaf (prif ffrwd = 23; ADY = 6); roedd rhai yn gyfniad o ar-lein a materol (prif ffrwd = 12; ADY = 1); ac roedd rhai yn faterol yn bennaf (prif ffrwd = 21; ADY = 4).

Dywedodd mwyafrif yr athrawon prif ffrwd fod y ddarpariaeth ddarllen wedi newid ar gyfer dysgwyr cartref yn ystod y ddau gyfnod clo, gyda newid llai sylweddol yn ystod yr ail gyfnod clo.

Darpariaeth ffoneg gyffredinol. Roedd yr athrawon yn cytuno'n gryf bod amllder a hyd sesiynau ffoneg wedi lleihau. Nid oedd hyn yn wir am bawb, a chyflawnwyd darpariaeth ffoneg fwy nodweddiadol gan rai ysgolion yn ystod yr ail gyfnod clo.

Darpariaeth darllen a deall. Roedd athrawon yn cytuno'n gryf bod y ddarpariaeth ddarllen a deall wedi newid, ond bod llawer o ddysgwyr dal wedi cael eu haddysgu'n uniongyrchol am fedrau darllen a deall.

Darpariaeth wedi'i thargeddu a gwahaniaethu. Roedd mwyafrif yr athrawon prif ffrwd yn cytuno nad oedd darpariaeth wedi'i thargeddu ar gyfer darllenwyr sydd o bosibl yn cael trafferth yn ystod y ddau gyfnod clo. Nododd llawer eu bod yn gallu gwahaniaethu gwaith ar gyfer darllenwyr oedd yn cael trafferth i ryw raddau, fodd bynnag roedd hyn yn fwy heriol i ddarllenwyr iau, ac roedd yn anodd cefnogi'r grwpiau mwyaf anghenus; y rhai ag ADY a theuluoedd anodd eu cyrraedd.

Darpariaeth darllen Cymraeg. Cafodd darpariaeth darllen Cymraeg ei heffeithio'n fwy negyddol na darpariaeth darllen Saesneg yn ystod y ddau gyfnod clo. Fodd bynnag, profodd rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg y gwrthwyneb. Roedd yr heriau'n cynnwys diffyg adnoddau Cymraeg a diffyg hyder rhieni yn y Gymraeg.

Ysgolion ADY. Adroddodd athrawon ysgolion ADY yn unfrydol bod y ddarpariaeth wedi newid yn ystod y pandemig. Roedd darpariaeth darllen cyn-bandemig yn cynnwys rhaglenni darllen yn seiliedig ar ffoneg. Yn ystod y cyfnodau clo, roedd y defnydd o raglenni ar-lein ac adnoddau materol yn caniatáu i ddarpariaeth ddarllen barhau i ryw raddau, er bod hyn yn amhosibl gyda rhai dysgwyr. Roedd staff yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n well i addysgu o bell yn ystod yr ail gyfnod clo, ond roedd problemau technegol yn peri heriau.

1.2 Effaith y pandemig ar gynnydd darllen a chyrhaeddiad

Dywedodd athrawon prif ffrwd fod y pandemig wedi cael effaith negyddol sylweddol ar sgiliau darllen, a oedd yn waeth i ddysgwyr gartref na'r rhai yn yr ysgol. Thema gyffredin oedd y mater o lai o eirfa Gymraeg a dealltwriaeth gyffredinol o'r iaith. Nododd athrawon ADY hefyd effaith negyddol sylweddol y pandemig ar sgiliau darllen, gydag un ysgol yn nodi bod oedran darllen cyfartalog wedi gostwng 27 mis yn dilyn y cyfnod clo cyntaf.

1.3 Rhwystrau a hwyluswyr i ymgysylltu

Mynediad i adnoddau. Cytunodd athrawon prif ffrwd fod diffyg mynediad at dechnoleg a Wi-Fi yn rhwystr i ymgysylltu â dysgwyr cartref. Dywedodd 32% o athrawon nad oedden nhw'n gallu darparu deunyddiau darllen i ddysgwyr mewn angen.

Mynediad at gymorth arbenigol. Roedd cytundeb cryf gan athrawon mewn ysgolion prif ffrwd fod diffyg mewnbwn yn y Gymraeg gartref yn rhwystr sylweddol i ymgysylltu â darpariaeth darllen Cymraeg i ddysgwyr gartref. Yn yr un modd, roedd y mwyafrif yn cytuno bod diffyg sgiliau technolegol mewn rhieni neu ddysgwyr eu hunain yn rhwystr i lawer o ddysgwyr, mewn cyferbyniad â'r anghytundeb llethol bod diffyg sgiliau o'r fath mewn athrawon neu gynorthwywyr addysgu yn rhwystr.

Cymhelliant dysgwyr ac ymgysylltiad rhieni. Cytunodd y rhan fwyaf o athrawon prif ffrwd nad oedd gan fyfyrwyr ddiddordeb mewn dysgu gartref. Nododd rhai ysgolion lefelau da o ymgysylltiad rhieni â'r ddarpariaeth ddarllen, ond dywedodd mwyafrif ymylol nad oedd rhieni wedi galluogi darllenwyr a oedd yn ei chael hi'n anodd cyrraedd y targedau a osodwyd yn ystod y cyfnod clo cyntaf, er bod hyn wedi gwella ychydig yn ystod yr ail gyfnod clo.

Ysgolion ADY. Dywedodd y mwyafrif o athrawon ADY fod angen cyflenwi offer i deuluoedd yn ystod y cyfnodau clo er mwyn galluogi mynediad i ddysgu ar-lein. Trafododd pob un o'r athrawon fod yna flaenoriaethau gwrthgyferbyniol arwyddocaol ar gyfer teuluoedd dysgwyr mewn ysgolion ADY wrth iddynt lywio gwahanol agweddau ar eu darpariaeth gofal ac addysg.

1.4 Amhariad parhaus ar ddarpariaeth a sgiliau darllen

Dywedodd y mwyafrif o athrawon prif ffrwd nad oedd y pandemig wedi amharu'n sylweddol ar y ddarpariaeth ddarllen yn barhaus. Roeddent yn teimlo bod hyder ac ymgysylltiad dysgwyr wedi gwella, a'u bod wedi gallu dechrau unioni'r effaith ar sgiliau darllen ers dychwelyd i'r ysgol. Fodd bynnag, dywedodd 34% y bu amhariad parhaus, gan adrodd am heriau yn ymwneud ag absenoldeb staff/dysgwyr,

cyfyngiadau parhaus ar amgylcheddau gwaith (fel 'swigod'), a'r angen i fynd i'r afael â pharodrwydd mwy sylfaenol i ddysgu sgiliau.

Yn yr un modd, mewn ysgolion ADY, nodwyd heriau yn ymwneud ag ymddygiad, hyder darllen, a blaenoriaethau cystadleuol megis yr angen i aildysgu sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu.

1.5 Y tu hwnt i'r pandemig

Parhaodd llawer o ysgolion i ddefnyddio'r apiau a rhaglenni ar-lein a ddefnyddiwyd yn ystod cyfnodau clo i gynorthwyo hyfedredd darllen a chyfathrebu â rhieni ar ôl y pandemig. Dywedasant hefyd eu bod wedi ceisio cynnal y perthnasoedd cryf rhwng rhieni a dysgwyr a ddatblygwyd dros y cyfnodau clo i gefnogi dysgu. Awgrymodd staff fod cyllid ar gyfer adnoddau darllen a hyfforddi ymarferwyr i gynnal ymyriadau arbenigol, a chreu ethos ysgol gadarnhaol ar gyfer darllen, yn flaenoriaethau ar gyfer cefnogi sgiliau darllen dysgwyr ar ôl y pandemig.

Nododd athrawon hefyd fod angen mwy o hyfforddiant mewn nifer o feysydd; dysgu ar-lein i gyflwyno dulliau addysgu cyfunol, hyfforddiant iechyd meddwl a lles, a hyfforddiant i addysgu hanfodion darllen a ffoneg i ddysgwyr hŷn yn ogystal â dysgwyr iau. Fe wnaethant hefyd nodi angen am amser i helpu dysgwyr i setlo yn ôl i mewn i addysgu; datblygu sgiliau cymdeithasol ac annibyniaeth, yn ogystal â'r angen am adnoddau sy'n briodol i'w hoedran, yn benodol ar gyfer myfyrwyr hŷn mewn ysgolion ADY. Yn olaf, nodwyd yr angen i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau cliriach ar y defnydd o raglenni ffoneg (gan gynnwys y mynediad a'r cymorth sydd ar gael), yn ogystal â'r angen am gymorth a buddsoddiad mwy cynhwysfawr mewn amser addysgu y tu hwnt i'r blynyddoedd cynnar er mwyn i ddysgwyr ADY ddatblygu sgiliau darllen.

1.6 Argymhellion

Daw llawer o'r argymhellion o'r adroddiad hwn yn uniongyrchol oddi wrth athrawon sy'n cymryd rhan, mewn ysgolion cynradd prif ffrwd ac ADY, ledled Cymru. Gwneir argymhellion pellach yn dilyn ein synthesis o'r ystod eang o fewnwelediadau a ddarparwyd gan y data a gasglwyd yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys y rhai sy'n benodol i'r pandemig a'r adferiad yn dilyn y pandemig, ac argymhellion ehangach ar gyfer polisi, ymarfer, ac ymchwil cysylltiedig. Gwneir pedwar ar ddeg o argymhellion.

Cymhwyso'r hyn a ddysgwyd i gyfnodau clo posibl yn y dyfodol.

1. Pe bai ysgolion yn cau, neu os daw dysgu gartref yn amlach i unrhyw grwpiau o ddysgwyr eto, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod darpariaeth glir, wedi'i chynllunio, ar waith, sy'n caniatáu i'r ddarpariaeth ddarllen orau bosibl barhau ar gyfer dysgwyr sydd gartref.
2. Fel y cyfryw, mae angen ymchwil pellach i goladu a gwerthuso arferion a allai fod yn effeithiol ar gyfer darparu cymorth i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr i gael mynediad at y llwyfannau technoleg ac addysgol angenrheidiol. Rhaid i hyn gynnwys y teuluoedd a'r dysgwyr hynny sy'n anodd eu cyrraedd, a'r rhai ag ADY, sydd ag angen penodol i

ystyried yn ofalus ffyrdd effeithiol o gyflwyno darpariaeth o'r fath ar gyfer dysgwyr ag anghenion mwy cymhleth.

3. Yn yr un modd, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod systemau ar waith i ddarparu mynediad at y dechnoleg angenrheidiol i **bob** dysgwr sydd ei angen.

Cefnogi datblygiad darllen dysgwyr yr effeithir yn negyddol arnynt gan y pandemig.

4. Ar gyfer dysgwyr y mae'r pandemig wedi effeithio'n negyddol ar eu sgiliau darllen, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid wedi'i dargedu a mentrau i unioni hyn ymhellach.

5. Dylai dysgwyr sydd bellach yng Nghyfnod Allweddol 2 Uchaf a Chyfnod Allweddol 3 cynnar gael mynediad at ymyriad wedi'i dargedu, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu eu sgiliau datgodio yn ôl yr angen. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar ysgolion i gynyddu'r capasiti staffio i gyflawni'r gwaith ymyrryd hwn ar raddfa fwy nag sy'n arferol ar gyfer y grwpiau blwyddyn hyn, yn ogystal â hyfforddiant ychwanegol i athrawon dysgwyr yn y grwpiau blwyddyn hyn i'w galluogi i gefnogi eu datblygiad darllen yn fwy effeithiol ar draws y cwricwlwm.

6. Oherwydd yr heriau niferus yr adroddir eu bod yn eu hwynebu wrth ddychwelyd i'r ysgol (e.e., diffygion sgiliau cymdeithasol a dysgu), mae dysgwyr ar draws y blynyddoedd cynradd yn debygol o fod angen cymorth ychwanegol i sicrhau eu bod yn datblygu sgiliau darllen rhugl yn yr ysgol gynradd.

7. Mae dysgwyr difreintiedig ac agored i niwed a dysgwyr y mae Saesneg yn iaith Ychwanegol iddynt yn debygol o fod angen lefelau uwch fyth o gymorth ychwanegol i sicrhau eu bod yn datblygu sgiliau darllen rhugl.

8. Bydd angen cymorth pellach ar ddysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg i sicrhau y gellir unioni'r effeithiau negyddol a adroddwyd mewn perthynas â'u darllen Cymraeg, eu geirfa a'u dealltwriaeth o'r iaith. Mae gan y mater hwn arwyddocâd arbennig i agenda Cymraeg 2050 a chanlyniadau cysylltiedig y cyfrifiad diweddar.

Dyfodol y ddarpariaeth ddarllen ar gyfer dysgwyr yng Nghymru: cefnogi datblygiad darllen dysgwyr ledled Cymru yn effeithiol.

9. Mae angen ymchwilio ymhellach i'r ffordd y caiff darllen ei addysgu ledled Cymru, drwy wneud rhagor o ymchwil i archwilio a gwerthuso'r dystiolaeth ar gyfer yr ystod o ddulliau a ddefnyddir.

10. Mae angen nodi meysydd o arfer addawol a'u gwerthuso er mwyn helpu i lywio arfer ledled Cymru.

11. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dystiolaeth sy'n llywio'r gwaith o roi polisïau ac arferion gwahanol iawn ar waith yng Nghymru, o gymharu â'r rhai yn Lloegr, er mwyn sicrhau bod ein dysgwyr yn cael y cymorth gorau posibl gyda'u datblygiad darllen.

12. Mae angen canllawiau gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o arwyddocâd ac amser yn cael ei roi i ddatblygu sylfaen gref mewn sgiliau darllen cynnar, ar gyfer pob dysgwr ar draws ysgolion cynradd prif ffrwd ac ADY yng Nghymru, waeth beth fo'u hoedran a'u cyfnod. Bydd hyn yn gofyn am ragor o waith ymchwil a chydweithio ag ysgolion i drafod sut y gellir ymgorffori arfer effeithiol wrth addysgu darllen yng ngweithrediad y Cwricwlwm i Gymru, a fydd yn ei dro angen cyllid.

13. I gefnogi argymhellion 4-8, ac argymhelliad 12, dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o'r ddarpariaeth hyfforddiant mewn perthynas â chyfarwyddyd darllen ar gyfer athrawon presennol ac athrawon dan hyfforddiant, gan gynnwys y cynnig dysgu proffesiynol a'r ddarpariaeth Addysg Gychwynnol Athrawon yn y maes hwn.

14. Mae angen gwell mynediad at adnoddau a rhaglenni darllen sy'n briodol i'w hoedran ar gyfer dysgwyr y gallai fod angen iddynt gael mynediad at addysgu sgiliau darllen cynnar y tu hwnt i'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 isaf.

15. Mae angen datblygu adnoddau a rhaglenni darllen Cymraeg ar gyfer pob dysgwr ymhellach, a gwerthusiadau o raglenni o'r fath i sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol posibl.

2. Cyflwyniad

Nid oes amheuaeth bod plant oedran ysgol wedi byw trwy gyfnod eithriadol yn ystod ac ar ôl pandemig Covid-19. Bydd effeithiau dysgu o bell ar allu academaidd ac iechyd a lles ein plant yn atseinio am flynyddoedd lawer i ddod. Pan darodd y pandemig gyntaf, gorfodwyd llawer o ysgolion i gau, a newidiodd dysgu yn bennaf i gael eu haddysgu o bell ar-lein (Eivers, Worth & Ghosh, 2020). Roedd faint o amser ysgol a gollwyd oherwydd y pandemig ac ystod o ffactorau eraill yn amrywio'n fawr rhwng myfyrwyr unigol. Mae Sibieta a Cottell (2020) yn rhoi trosolwg o sut y darparodd pedair llywodraeth y DU ymateb polisi addysgol gwahanol rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020. Cyfrifodd yr adroddiad, yn ystod anterth y pandemig, fod 34% o ysgolion Cymru yn parhau i fod ar agor i blant agored i niwed ac i'r rheini yr oedd eu rhieni'n cael eu dosbarthu fel 'gweithwyr allweddol'. Mewn cyferbyniad â Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban lle arhosodd 71%, 29% a 24% o ysgolion yn y drefn honno ar agor (Sibieta & Cottell, 2020). Roedd darpariaeth yn cael ei darparu drwy safleoedd hwb ar draws Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn hytrach nag ar sail ysgolion unigol fel yn Lloegr, a allai gyfrif am yr amrywiad mewn niferoedd.

Ynghyd â Rhifedd a Chymhwysedd Digidol, mae Llythrennedd yn un o'r tri sgil trawsgwricwlaidd gorfodol yng Nghymru. Sgiliau iaith, cyfathrebu a darllen yw'r sylfaen ar gyfer yr holl ddysgu ac mae'n bwysig ein bod yn deall sut yr effeithiwyd ar sgiliau o'r fath gan yr aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig trwy asesu a siarad ag athrawon ac arweinwyr ysgol.

Mae asesu yn rhan sylfaenol o Gwricwlwm i Gymru ac mae cynnydd dysgwyr bellach yn cael ei asesu ar hyd continwrm dysgu o 3 i 16 oed. Oherwydd y pandemig coronafeirws (COVID-19) a'r cau ysgolion gorfodol a ddilynodd, ni chasglwyd data cyflawniad yn 2020 a 2021. Adroddwyd mai'r canlyniadau lefel darllen cenedlaethol diweddaraf ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 yn 2022 oedd bod 84.7% o ddysgwyr yn cyflawni'r lefel 5 ddisgwylidig (y lefel a ystyrir fel yr isafswm sy'n ofynnol er mwyn i ddysgwyr allu cyrchu cwricwlwm yr ysgol uwchradd). Datgelodd asesiadau a gymerwyd cyn covid (2016, 2017, 2018 a 2019) fod canran y dysgwyr a gyflawnodd y lefel 5 ddisgwylidig neu uwch yn sylweddol uwch (87.4%, 88.9%, 89.8%, ac 88.9% yn y drefn honno) o gymharu â sgorau 2022 (StatsCymru, 2022).

Mae hyn wedi'i ddangos ymhellach mewn adolygiadau tystiolaeth, lle adroddwyd bod cau ysgolion yn eang oherwydd y pandemig wedi arwain at ddirywiad cyffredinol yng ngallu darllen dysgwyr ysgolion cynradd (Domingue, Dell & Lang, 2022), sy'n cyfateb i golli traean o flwyddyn mewn addysg (Ludewig, Kleinkorres & Schaufelberger, 2022). Mae athrawon hefyd wedi nodi dirywiad ym medrau gwrando, siarad a chymdeithasol dysgwyr, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed a'r rheini yn y cyfnod sylfaen. Yn y cyfnod sylfaen, roedd y pryder mwyaf ynghylch dysgwyr yn colli cerrig milltir ddatblygiadol allweddol plant a allai effeithio ar eu lles emosiynol, cyfathrebu a datblygiad dysgu (Education Policy Institute, 2021b).

Mae ymchwil yn ymwneud ag athrawon ysgolion cynradd hefyd wedi amlygu sawl mater a gododd wrth addysgu sgiliau llythrennedd yn ystod y pandemig, a allai fod wedi cyfrannu at y dirywiad hwn mewn gallu darllen. Roedd hyn yn cynnwys diffyg addysgu personol, a arweiniodd at lai o gyfleoedd i fyfyrwyr arsylwi emosiynau a

mynegiant yr wyneb, a diffyg cyfle i staff addysgu gyflwyno straeon darllen yn uchel i'w dosbarthiadau (Alsubaie, 2022). Ymhellach, awgrymwyd bod y newid i ddysgu ar-lein yn ystod cau ysgolion wedi arwain at lefelau is o frwdfrydedd darllen ymhlith dysgwyr ifanc, y mae'n well ganddynt ddarllen copïau materol o destun, ac sy'n anghyfarwydd â darllen digidol (Sun, Loh & Nie, 2021). Felly, ni fu erioed amser pwysicach i gael mewnwelediad i ba fath o addysgu darllen a gafodd dysgwyr yn ystod ac yn dilyn cau ysgolion ar draws ysgolion cynradd yng Nghymru.

Mae ystadegau sy'n ymwneud ag ysgolion anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn nodi cyfraddau llythrennedd isel iawn. Fodd bynnag, gwyddom fod bwlch cyrhaeddiad sylweddol mewn darllen ar gyfer plant ag ADY, sy'n cynyddu ar draws y cyfnodau allweddol (Yr Adran Addysg, 2018). Er enghraifft, yn 2019 dim ond 64% o ddysgwyr ar y gofrestr ADY a gyflawnodd y lefel llythrennedd 4 ddisgwyliedig neu uwch erbyn 11 oed, o gymharu â 99% o ddysgwyr heb unrhyw anghenion dysgu ychwanegol (StatsCymru, 2020). Ar gyfer y rhai yr aseswyd bod ganddynt anghenion addysgol arbennig, dim ond 21% a gyflawnodd Lefel 4 neu uwch. Er ei bod yn debygol na fydd llawer o blant mewn ysgolion ADY, yn enwedig y rhai ag anableddau deallusol mwy difrifol, yn cyrraedd lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, gall disgwyliadau o'r fath gael eu dylanwadu i ryw raddau gan ddata cyrhaeddiad hanesyddol yn hytrach na'r potensial ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd gyda phlant ag anableddau deallusol (Fletcher-Campbell 2000; Kliewer a Biklen 2001).

Ychydig a wyddys yn benodol am effaith y pandemig ar addysgu llythrennedd a chyrhaeddiad mewn ysgolion ADY. Fodd bynnag, gwyddom fod y rhai sy'n gweithio mewn ysgolion ADY wedi wynebu heriau unigryw ac arbennig o gymhleth i barhau i alluogi dysgwyr i wneud cynnydd academiaidd, ac mae'n debygol bod Covid-19 wedi cael effaith anghymesur ar ddysgu ar gyfer y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

3. Adolygiad llythrennedd

3.1 Cyd-destun cyffredinol polisi llythrennedd a darpariaeth darllen

Gall sgiliau darllen effeithio ar ansawdd bywyd person, ac mae darllen yn sgil mynedfa hanfodol i blentyn ei hennill yn ystod ei addysg (Yr Adran Addysg, 2015). Mae darllen yn hybu annibyniaeth, yn hanfodol ar gyfer mynd i'r afael ag effeithiau tlodi ar blant (Achub y Plant / Save the Children, 2014), ac mae hefyd yn gysylltiedig â chanlyniadau cymdeithasol ac emosiynol mwy cadarnhaol i blant (Yr Adran Addysg, 2012). Ymhellach, gall addysgu darllen yn gynnar gynyddu mwynhad mewn darllen er pleser a ffeithiau, ac osgoi darllenwyr anfoddog (Twist, Jones a Threleaven, 2022).

Ers y 1990au, mae addysg yng Nghymru wedi mynd trwy newidiadau sylweddol i'w hymagwedd at ddarpariaeth addysg a llythrennedd (Evans, 2022). Rhwng 1999 a 2010, roedd polisi addysgol yng Nghymru wedi'i ddatganoli o'r un yn Lloegr, gydag arweinwyr addysg yn cael cyfle i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch sut i addysgu'r cwricwlwm. Rhwng 2010 a 2015, symudodd polisi addysg eto i ddull mwy safonol gydag ailgyflwyno profion cenedlaethol, gan gynnwys cyflwyno 'cynllun 20 pwynt' Llywodraeth Cymru, a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar lythrennedd a rhifedd, a'r defnydd o ystadegau i asesu cynnydd myfyrwyr (Andrews, 2011). Daeth hyn ar ôl i brofion y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) a asesodd wybodaeth a sgiliau craidd myfyrwyr sy'n gorffen addysg orfodol ddatgelu bod dysgwyr yng Nghymru wedi perfformio'n sylweddol is na'r rhai yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar fesurau llythrennedd, mathemateg a gwyddoniaeth. NFER, 2010). Rhwng 2015 a 2020 cafodd y cwricwlwm newydd i Gymru ei ddatblygu gan athrawon a'i wneud ar gael i ysgolion ei weld. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn seiliedig ar gynllun addysg pum mlynedd Cymwys am Oes 2014 Llywodraeth Cymru, a roddodd ffocws cryf ar addysgeg. Mae'r cwricwlwm newydd yn cael ei danategu gan bedwar diben y cwricwlwm a chwe maes dysgu a phrofiad, ac un ohonynt yw ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu (Evans, 2022).

O dan y maes dysgu a phrofiad ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu newydd, llythrennedd yw ffocws pob dysgu, a'i nod yw galluogi dysgwyr i fynegi eu hunain, deall iaith ysgrifenedig a llafar, a chyfleu ystyr (llyw.cymru). Nid yw'r canllawiau ar gyfer y maes dysgu a phrofiad hwn yn mandadu bod ysgolion yng Nghymru yn addysgu llythrennedd mewn ffordd safonol, yn wahanol i Loegr a'r Alban lle mae'n orfodol bod hyfedredd llythrennedd ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 yn canolbwyntio ar ffoneg synthetig systematig, a ble mae ysgolion i gwblhau Asesiad Sgrinio Ffoniog Blwyddyn 1 (The Learning Institute, 2020). Yn hytrach, mae Cwricwlwm i Gymru yn amlinellu'r sgiliau y dylai dysgwyr allu eu datblygu drwy'r maes dysgu a phrofiad hwn, gan gynnwys defnyddio strategaethau ffonig i ddatgodi geiriau, deall ciwiau cyd-destun, gwybodaeth am wreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau a chystrawen. Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn rhoi arweiniad manylach ochr yn ochr â hyn i gefnogi dysgwyr i wneud cynnydd yn y medrau hyn.

3.2 Effeithiau'r pandemig

3.2.1 Cyd-destunau heriol yn yr ysgol

Er bod anawsterau i ddysgwyr a'u teuluoedd, mae effaith y pandemig ar staff ysgol hefyd wedi bod yn sylweddol. Roedd yn rhaid i staff addysgu ac Uwch Dimau Arwain (UDA) symud ac addasu'n gyflym i ffyrdd newydd o gyflwyno darpariaeth o dan amgylchiadau digynsail. Trosglwyddodd ysgolion i ddarpariaeth trwy gymwysiaid newydd (e.e. SeeSaw, Google Classroom), gyda dosbarthiadau'n cael eu cynnal ar dechnolegau cymharol newydd, ac roedd angen i athrawon addasu i ddefnyddio technoleg cyfathrebu at ddibenion addysgegol. Gwelodd y pandemig gynnydd mewn bregusrwydd dysgwyr a datblygwyd rhai newydd; roedd gan yr ysgolion gyfrifoldebau diogelu heriol o hyd, ac mewn rhai achosion roedd hyd yn oed yn dosbarthu parseli bwyd i deuluoedd a oedd yn wynebu caledi, yn ogystal â dosbarthu offer, deunyddiau dysgu a chynnal arferion hylendid ychwanegol a diogelwch staff ar gyfer darpariaeth yn yr ysgol. Mae rhai penaethiaid wedi sôn am yr anhawster o geisio ymateb hefyd i geisiadau gan gyrrff llywodraethu, megis ceisiadau data ychwanegol (Hulme, Beauchamp, Clarke & Hamilton, 2021), gan waethygu'r pwysau a'r rhwystredigaethau cynyddol sy'n gysylltiedig â'r newid canllawiau (Toseeb, Asbury, Code, Fox & Deniz, 2020).

Mae staff mewn ysgolion anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (gan gynnwys athrawon, staff cymorth a chynorthwyr addysgu) yn adrodd am lefelau sylweddol o orfoledd, gyda'r gofynion sylweddol ar staff mewn ysgolion ADY yn amlwg yn y llenyddiaeth cyn y pandemig (Brittle, 2020). Heriwyd athrawon a'r UDA i gynnal pellter cymdeithasol a chyflwyno 'swigod' o staff a dysgwyr i gyfyngu ar ymlediad. Fodd bynnag, roedd hyn yn cyflwyno heriau ychwanegol mewn ysgolion ADY; efallai bod gan ddysgwyr anghenion gofal personol, roedd trefniadau trafndiaeth yn ei gwneud yn anodd cynnal swigod, ac nid oedd llawer o ddysgwyr yn gallu deall cysyniad ymbellhau cymdeithasol (Palaukait, et al., 2021). Teimlai rhai staff mewn ysgolion ADY nad oeddent yn cael arweiniad digonol ar gyfer y math hwn o leoliad, lle mae'r dysgwyr yn cyflwyno rhai o'r anghenion mwyaf arwyddocaol (Crane et al., 2021).

3.2.2 Darpariaeth ar gyfer dysgwyr

Mae effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc yn dal i gael ei hymchwilio'n fanwl ledled y byd. Hyd yma mae ymchwil yn ymwneud â chau ysgolion wedi nodi anawsterau i ddysgwyr ar draws sawl lefel. Tra bod ysgolion ar gau, mae ymchwil yn dangos bod newidiadau mewn trefn arferol, aflonyddwch cwsg, a diffyg rhyngweithio cymdeithasol yn effeithio ar gymhellant, lles ac iechyd meddwl dysgwyr (Panchal et al., 2021). Mae data sy'n dod i'r amlwg yn awgrymu bod cau ysgolion wedi effeithio'n anghymesur ar rai dysgwyr, er enghraifft dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig (e.e., Twist, Jones, a Threleaven, 2022). Er bod bywyd cartref ac amgylchiadau teuluol yn chwarae rhan bwysig yn y modd yr ymatebodd dysgwyr i'r pandemig, roedd problemau hefyd o fewn y system addysg. Nodwyd diffyg technoleg (yn enwedig mewn rhai rhannau o Gymru), cysylltu â band eang, cael plant lluosog gartref, a sgiliau rhieni fel rhwystrau i ddysgwyr. Roedd y galw'n drech na'r cyflenwad mewn rhai ardaloedd, wrth ddarparu gliniaduron, a mynegodd rhai rhieni eu bod yn teimlo gwarth yn gofyn am a derbyn gliniaduron (Waters-Davies et al., 2021). Er hynny, mae ymateb Cymru i wella mynediad at ddysgu ar-lein trwy ddarparu technoleg i ddysgwyr yn y cartref wedi cael ei ganmol yn arbennig o gymharu ag ymateb

gwledydd eraill y DU (Sibieta & Cottell, 2020). Mae'r graddau amrywiol o gyfranogiad rhieni hefyd yn cael ei ganfod fel cynnydd academiaidd cyfyngedig y dysgwyr (William a Stéphan, 2021; Coe, Weidmann, Coleman a Kay, 2020). Mae ymchwil cyn-bandemig i gyfranogiad rhieni mewn dysgu yn y cartref yn dangos bod penaeithiad ac aelodau o'r uwch dîm arwain yn ganolog i annog lefelau ansawdd uchel o ymgysylltu â rhieni, gan awgrymu bod mwy o effaith ar lefel ymglymiad rhieni ag addysg dysgwyr pan fydd yn rhan o ethos yr ysgol a gyflwynir fel 'dull ysgol gyfan' (Hornby a Lafaele, 2011; Hornby a Blackwell, 2018). O ran pandemig Covid-19, roedd amrywiaeth eang yn lefel ymgysylltiad dysgwyr â dysgu gartref ac roedd hyn, yn rhannol, oherwydd lefelau amrywiol o gefnogaeth rhieni (Andrew, 2020; Lucas, Nelson & Sims, 2020).

Mae casglu data amser real ar ddarpariaeth yn ystod addysg o bell yn heriol, fodd bynnag, mae rhai amcangyfrifon o ddysgu o bell yn awgrymu bod yr amser cyfartalog y treuliodd dysgwyr yn dysgu yn hanner yr amser darpariaeth arferol yn yr ysgol; rhwng 2 a 2.4 awr gartref, o gymharu â 4.5 i 6 awr yn yr ysgol (William a Stéphan, 2021). Ymhellach, adroddodd Sibieta a Cottell (2020) mai Cymru, yr Alban, Canolbarth Lloegr a Gogledd Lloegr sydd â'r oriau dysgu cartref isaf yn ystod y cyfnod cyntaf o gau ysgolion. Dysgu o bell trwy lwyfannau ar-lein oedd y prif ddull cyflwyno, gan gynnwys gwersi byw a gwersi wedi'u recordio ymlaen llaw. Darparodd rhai ysgolion ddeunyddiau dysgu hefyd ar ffurf pecynnau dysgu, llyfrau a thafleuni gwaith. Dim ond elfen fach o ddysgu o bell oedd rhyngweithiadau amser real yn y sector cynradd ac uwchradd o'r system addysg; canfu arolwg a gynhaliwyd gyda rhieni yn y DU mai dim ond 25% o ddysgwyr oedd wedi cael rhyngweithiadau amser real. Roedd deunyddiau papur yn cael eu defnyddio'n amlach yn y DU, gyda 34% o rieni'n nodi bod adnoddau dysgu yn rhai papur (William & Stéphan, 2021). Bu Montacute a Cullinane (2021) yn ymchwilio i addysgu yn ystod y pandemig a chanfuwyd mai dim ond 4% o athrawon oedd yn defnyddio fideo-gynadledda ym mis Mawrth 2020 yn ystod y cyfnod cyntaf o gau ysgolion, o gymharu â 54% yn yr ail gyfnod o gau ysgolion.

Mae Waters-Davies et al., (2021) yn crynhoi'r brwydrau a gafwyd yn ystod y pandemig gan rieni di-Gymraeg plant sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Gymraeg. Dywedodd rhieni eu bod yn teimlo y gellid bod wedi cynnig mwy o gefnogaeth ac arweiniad i rieni di-Gymraeg i gefnogi dysgu eu plant trwy gyfrwng y Gymraeg yn well. Roedd yr argymhellion a gyflwynwyd gan yr awduron yn cynnwys; darparu nodiadau canllaw drwy gyfrwng y Saesneg, nodi adnoddau ar-lein hygyrch, a phan oedd dysgu'n digwydd o bell, gallai gwersi 'byw' ar-lein fod wedi'u recordio a'u gwneud ar gael i ddysgwyr eu cyrchu'n ddiweddarach os nad oeddent yn gallu ymuno â'r wers fyw (Waters-Davies, Davies, Underwood a Lloyd-Williams, 2021).

I lawer o deuluoedd, achosodd y pandemig heriau cymhleth, gan gynnwys tarfu sylweddol ar waith, addysg, a rhyngweithio cymdeithasol, a gafodd effaith negyddol ar les meddwl (Green, 2021). Prin yw'r wybodaeth am y cysylltiad rhwng cyrhaeddiad a lles cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr (Twist, Jones a Threleaven, 2022). Fodd bynnag, mae ymchwil yn awgrymu bod rhieni, athrawon ac uwch arweinwyr yn gweld bod lles ac iechyd meddwl dysgwyr yn gydrannau pwysig mewn canlyniadau academiaidd, ac y dylai cymorth ôl-bandemig ar gyfer lles ac iechyd meddwl dysgwyr fod yn flaenoriaeth ar bob lefel o'r system addysg (Waters-Davies et al., 2021).

3.2.3 Cyd-destunau ysgol ADY

Mae effaith y pandemig ar ddysgwyr, teuluoedd dysgwyr, a staff mewn ysgolion anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi bod yn arbennig o amlwg a chymhleth. Er bod y rhan fwyaf o ddysgwyr ag ADY yn cael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd, mae llawer yn mynychu ysgolion ADY sy'n gallu darparu ar gyfer eu hanghenion dysgu, corfforol a meddygol sy'n aml yn gymhleth. Byddai dysgwyr sy'n mynychu ysgolion ADY yn aml yn cael eu hystyried mewn mwy o berygl o Covid-19 oherwydd mynychder uwch o faterion iechyd.

Mae ymchwil yn dangos bod dysgwyr mewn ysgolion ADY yn wynebu lefelau uwch o bryder yn sgil colli strwythur, a bod diffyg rhyngweithio cymdeithasol wedi arwain at lai o gynnydd academaidd (Banerjee, Khan, a Kesavan, 2021). Adroddodd llawer o rieni eu bod wedi amharu ar batrymau cwsg a chynnydd mewn ymddygiad heriol, gan arwain at bryderon ynghylch trosglwyddo plant yn ôl i amgylchedd yr ysgol (Palauskaite et al., 2021). Gwelwyd hyn hefyd pan ddychwelodd dysgwyr i'r ysgol, a'r anhawster i blant a staff orfod llywio rheolau newydd ar ofodau a chyswllt cymdeithasol, ynghyd â threfn newydd (Waters-Davies et al., 2021). Roedd dysgwyr ag anghenion mwy cymhleth a'u teuluoedd yn wynebu heriau sylweddol y tu hwnt i gael mynediad at addysgu, gyda gwasanaethau cymorth ychwanegol yn aml yn tarfu ar ddarpariaeth a chymorth ar gyfer anghenion dyddiol sylfaenol (Palauskaite et al., 2021).

Mewn perthynas â dysgu gartref, tynnodd rhieni a gofalwyr plant ag anghenion dysgu ychwanegol sylw at yr angen am gyngor arbenigol, gweithgareddau strwythuredig a deunyddiau i gefnogi dysgu (Sideropoulos et al., 2021). Dywedwyd hefyd bod 7 o bob 10 rhiant plentyn ag awtistiaeth wedi canfod bod eu plentyn yn cael anhawster i gwblhau neu ddeall gwaith ysgol, a bod hyn wedi arwain at ddirywiad yng nghynnydd academaidd y plentyn (National Autism Society, 2021). Roedd ymchwil a gynhaliwyd gyda rhieni yng Ngogledd Iwerddon yn awgrymu bod dysgwyr ag ADY yn cael anhawster i gadw at y drefn a awgrymwyd, cadw plant i ymgysylltu, ac anhawster i ddeall y gwaith a osodwyd gan yr ysgol (Bates, Finlay & O'Connor Bones, 2021). Mae rhieni hefyd wedi adrodd am ddiffyg gwybodaeth am egluro newidiadau i drefn gyda'u plant, ac anhawster wrth ddilyn canllawiau'r llywodraeth (Palauskaite et al., 2021), yn enwedig ar gyfer dysgwyr ag anhwylder ar y sbectwm awtistig (ASA) sy'n aml yn dibynnu ar arferion a pherthnasoedd sefydledig (Rogers et al., 2021).

Fodd bynnag, adroddwyd bod lefel yr ymgysylltu ynghylch cau'r ysgol yn isel ar gyfer dysgwyr ADY, gan gynnwys dysgwyr mewn ysgolion prif ffrwd sydd â Chynllun Addysg, Iechyd a Gofal (cynllun CAIG neu AIG) (Lucas, Nelson & Sims, 2020). Mae dysgwyr ADY yn wynebu lefelau uwch o 'dlodi digidol' na phlant sy'n datblygu'n nodweddiadol, ac mae dysgwyr ADY yn enwedig mewn ysgolion ADY yn fwy tebygol o fod yn ddysgwyr dan anfantais, plant sy'n derbyn gofal, ac aelwydydd rhiant sengl (Crane et al., 2021; Thomas, 2020). Mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn awgrymu bod dysgwyr ag ADY wedi gwneud llai o gynnydd na phlant sy'n datblygu'n nodweddiadol mewn dosbarthiadau blynyddoedd cynnar a derbyn yn seiliedig ar sampl o 450 o ddysgwyr o Ogledd Lloegr gan ddefnyddio Proffil Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar (EYFSP) (Nash et al., 2022). Ymhellach, canfuwyd bod cyfraddau presenoldeb ar ôl cau'r ysgolion y tro cyntaf yn llawer is mewn ysgolion ADY nag mewn ysgolion prif ffrwd ar draws y DU (Gov, 2020; Sibieta & Cottell,

2021). Canfu ymchwil a archwiliodd yr effaith ar iechyd a lles ar gyfer staff sy'n gweithio mewn ysgolion ADY yn ystod y pandemig fod athrawon yn adrodd am lefelau uwch o straen yn gysylltiedig â nifer o bwysau ychwanegol yn gweithio mewn cyd-destun ADY (Ueda et al., 2021). Soniodd Crane et al., (2021) hefyd am bryderon athrawon ynghylch cynnal pellter cymdeithasol rhwng plant a gorfod cefnogi gofal personol arferol plant ochr yn ochr â'r gofynion hylendid ychwanegol. Eglurodd arweinwyr o fewn carfan o ysgolion ADY yn Llundain fod diffyg arweiniad ynghylch agor ysgolion a oedd wedi'u teilwra i gyd-destun ysgolion ADY (Crane et al., 2021).

Yn ogystal, canfuwyd bod iechyd meddwl a lles dysgwyr ADY yn cael eu heffeithio'n anghymesur o gymharu â'u cyfoedion sy'n datblygu'n nodweddiadol (Theis et al., 2021). Canfu Sibieta a Cottell (2020 a 2021) fod holl wledydd y DU wedi methu â chefnogi plant ag ADY yn ddigonol yn ystod y cyfnod clo cyntaf, ac wedi methu â rhoi arweiniad digonol i ysgolion ynghylch sut i gyflwyno addysg yn effeithiol i ddysgwyr ag ADY dros y cyfnod hir o aflonyddwch, gan ddod i'r casgliad y gallai hyn fod wedi bod yn niweidiol iawn i'r grŵp hwn o ddysgwyr. Daeth y pandemig â galwadau cynyddol ar deuluoedd dysgwyr ADY a oedd, yn ogystal â'r newidiadau hanfodol yr oedd yn rhaid i bawb eu gwneud, hefyd yn gorfod ymdopi â'r her darparu ar gyfer anghenion gofal ychwanegol a gorfod llywio tirwedd gwasanaethau gofal anghyson ac ansicr gyda lefelau amrywiol o gymorth yn cael eu darparu (Rose et al., 2020). Adroddodd Toseeb et al., (2020) fod rhieni wedi teimlo bod llawer o anghenion eu plant wedi mynd heb eu diwallu yn ystod y cyfnod clo. Dewisodd llawer o deuluoedd addysgu a rheoli anghenion cymhleth eu plant gartref er eu bod yn cael y cyfle i'w hanfon i'r ysgol. Fodd bynnag, dywedodd teuluoedd eu bod yn teimlo nad oeddent yn barod ac nad oeddent wedi'u harfogi i ofalu a darparu ar gyfer eu plant ag ADY gartref yn ystod y pandemig (Greenway & Eaton-Thomas, 2020). Dywedodd llawer o rieni y gallai lefel y cymorth gan ysgolion ADY a gynhelir fod wedi bod yn well (O'Hagan, 2020), ac mae tystiolaeth yn dangos bod effaith sylweddol ar iechyd meddwl rhieni (Rogers et al., 2021).

3.2.4 Darpariaeth darllen

Oherwydd yr aflonyddwch a achoswyd i addysg gan y pandemig Covid-19, gorfodwyd staff addysgu ac addysgwyr i addasu'n gyflym i gyfnod newydd o ddysgu. Heb fynediad i'r ystafell ddosbarth, adnoddau na chyswllt wyneb yn wyneb daeth nifer o strategaethau dysgu newydd a chreadigol i'r amlwg ym mhob maes o'r cwricwlwm. O ran darpariaeth darllen a chyfarwyddyd llythrennedd, cyflwynodd addysgwyr a sefydliadau fel ei gilydd nifer o strategaethau a oedd yn ymgorffori dysgu rhithwir. Ystyrir bod darllen i blant yn hanfodol i allu darllen plant ac mae'n gysylltiedig â nifer o ganlyniadau hollbwysig (Blewitt, Rump, Shealy, & Cook, 2009; Sipe, 2000; Greene Brabham a Lynch-Brown, 2002; Trelease, 2019). Mae addysgwyr yn darllen yn uchel i'w myfyrwyr yn arfer cyffredin, ac i rai plant, yr ysgol yw'r unig amgylchedd lle mae hyn yn digwydd.

Fel y cyfryw, codwyd pryderon ynghylch colli arfer mor bwysig pan arweiniodd Covid-19 at gau ysgolion. Wrth wynebu newid i amgylchedd dysgu rhithwir, ceisiodd y staff addysgu oresgyn y rhwystr hwn trwy bostio fideos ar-lein o athrawon, awduron ac enwogion yn darllen llyfrau poblogaidd i blant, gyda nodweddion rhyngweithiol, i ennyn diddordeb eu myfyrwyr. Cynhaliwyd y rhain yn fyw, trwy gyfryngau fel Zoom neu Teams, neu eu postio fel fideos wedi'u recordio ymlaen llaw. (Stoetzel & Shedrow, 2021; Furlong et al., 2021). Oherwydd pryderon ynghylch diffyg

cymhelliant mewn dysgu hunangyfeiriedig, datblygwyd rhaglenni hefyd gan sefydliadau a oedd yn seiliedig ar ddysgu rhithwir sy'n canolbwyntio ar asesu, er mwyn rhoi adborth i fyfyrwyr a nod i weithio tuag ato (Sun, Wang a Wang, 2021).

Yn Lloegr, amlinellodd adolygiadau annibynnol a gomisiynwyd gan yr Adran Addysg (Rose, 2006; Rose 2009) bwysigrwydd ffoneg synthetig systematig (FfSS) o ansawdd uchel fel y prif ddull o addysgu darllen a sillafu cynnar, ac y dylai gwaith ffoneg ddechrau ar gyfer y rhan fwyaf o blant 5 oed (Swyddfa Gwyddoniaeth a Thechnoleg Seneddol, 2009). Yn dilyn y canfyddiadau hyn, mae'r defnydd o FfSS mewn addysgu darllen cynnar wedi'i gynghori'n gryf o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol ers 2007. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae hyn wedi ymestyn yn fwy ffurfiol i ysgolion ADY yn Lloegr, sy'n cael eu cynghori'n gryf ar hyn o bryd i ddefnyddio dull FfSS gyda'u holl ddysgwyr.

Mewn gwerthusiad o'r newid mewn addysgeg tuag at FfSS yn Lloegr, canfu Machin et al., (2018) fod effeithiau cychwynnol cryf i ddysgwyr, a oedd yn parhau ar gyfer dysgwyr a oedd mewn mwy o berygl cychwynnol o gael trafferth gyda darllen. Mae eu canfyddiadau felly'n dangos y gall mabwysiadu'r FfSS yn eang fod o fudd arbennig i ddysgwyr dan anfantais.

Mewn llawer o achosion, aethpwyd ati i addasu dulliau FfSS fel bod y defnydd ohono'n parhau trwy gydol cyfnod cau ysgolion a dychwelyd unwaith eto i'r ystafell ddosbarth. Cyhoeddodd Beaven, Comas-Quinn & Hinton (2022) gyfres o astudiaethau achos yn dangos sut yr addasodd sefydliadau addysgol fel eu bod yn gallu darparu ffoneg synthetig trwy gydol y pandemig, ac yn ei sgil. Yn Academi Angel Oak yn Llundain, adroddwyd bod staff, wrth addasu ffoneg synthetig i ddysgu rhithwir, yn postio recordiadau ar-lein o sesiynau ffoneg ar gyfer eu dysgwyr ac yn gosod heriau iddynt i gefnogi eu datblygiad darllen. Seiliwyd y gwersi hyn ar seiniau oedd eisoes yn gyfarwydd i'r plant, fel y byddent yn cadw'r wybodaeth oedd ganddynt eisoes. Roedd y dull hwn yn llwyddiannus, fodd bynnag, ar ôl dychwelyd i ddysgu personol, roedd yn golygu bod dysgwyr 6 mis ar ei hôl hi o ran datblygiad eu llythrennedd. Mae'r academi bellach wedi addasu ffoneg synthetig unwaith eto i ddysgu wyneb yn wyneb ac i helpu dysgwyr i ddal i fyny ar eu targedau datblygiadol. Ymhellach, yng Nghanolfan Ddysgu Bloomfield, roedd yn ofynnol i staff addasu eu sesiynau ffonig synthetig wythnosol arferol wyneb yn wyneb pan oedd yn rhaid cau ysgolion. Yn ystod Covid-19 sefydlodd y sefydliad glinig llythrennedd ar-lein er mwyn darparu ffoneg synthetig yn rhithwir, a oedd yn hygyrch i fyfyrwyr sy'n gweithio gartref ac i fyfyrwyr â gofalwyr gweithwyr allweddol. Ers ail-agor ysgolion, mae'r ganolfan wedi addasu unwaith eto i gyflwyno ffoneg synthetig yn hyblyg, wyneb yn wyneb a rhithwir.

3.2.5 Deilliannau darllen

Gydag effeithiau mor sylweddol ar ddarpariaeth addysgol, bu pryderon dealladwy yn ymwneud â chynnydd academiaidd yn ystod y pandemig. Mewn adroddiad gan The Sutton Trust, adroddwyd bod 84% o athrawon o'r farn y byddai'r pandemig yn cynyddu'r bwch cyrhaeddiad a oedd yn bodoli eisoes, gydag athrawon o'r ysgolion mwyaf difreintiedig yn rhagweld y byddai'r bwch yn sylweddol (Montacute & Cullinane, 2021). Mae sawl adroddiad ar effaith y pandemig ar gyrhaeddiad darllen dysgwyr yn Lloegr yn rhoi mewnwelediad pwysig i sut mae'r tarfu ar gau ysgolion wedi effeithio ar ddeilliannau ar draws y ffin, ac i raddau helaeth yn cefnogi

rhagfynegiadau athrawon (Rose et al., 2021; Blainey & Hannay, 2021a, Blainey a Hannay, 2021b; DfE, 2021; Twist, Jones a Threleaven, 2022).

Dangoswyd hyn mewn adroddiad gan y Sefydliad Gwaddol Addysg, lle canfuwyd bod cau ysgolion oherwydd y pandemig wedi arwain at ddirywiad yng ngalluoedd dysgu dysgwyr yn gyffredinol, ond yn benodol, y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel. Mae hyn wedi arwain at y bwlch cyflawniad rhwng dysgwyr dan anfantais a'u cyfoedion nad ydynt dan anfantais yn tyfu hyd yn oed yn fwy. Roedd yr adroddiad hefyd yn dangos mai dysgwyr oed ysgol gynradd, yn enwedig y rhai yng Nghyfnod Allweddol 1 (Dysgu Sylfaen yng Nghymru), a welodd y gostyngiad mwyaf amlwg mewn cyrhaeddiad addysgol (EEF, 2022).

Yn ddiweddar, mae Twist, Jones a Threleaven (2022) wedi adolygu'r dystiolaeth sy'n ymwneud ag effaith Covid-19 ar gyrhaeddiad dysgwyr yn Lloegr ar draws pob cyfnod allweddol, yn benodol mewn perthynas â darllen a mathemateg. I grynhoi, mae'r dystiolaeth bresennol yn dangos bod yr amhariad ar yr ysgol wedi effeithio ar bob grŵp blwyddyn gynradd, gyda'r ddau gyfnod o darfu ar ysgolion a chau'r ysgol yn arwain at lai o gynnydd mewn darllen nag a fyddai'n cael ei weld yn nodweddiadol dros y cyfnodau hynny. Roedd yr effaith yn fwy amlwg ar gyfer dysgwyr iau, gyda sawl adroddiad yn nodi mai'r bwlch Covid ar gyfer darllen oedd y dysgwyr Blwyddyn 1 mwyaf (Blainey et al., 2021b; Rose et al., 2021). O'r herwydd, mae Twist, Jones, a Threleaven (2022) yn nodi'n glir bod angen ymyrraeth a chyllid wedi'i dargedu ar ddysgwyr Cyfnod Allweddol 1. Eifen bwysig o'r pryder a adroddwyd ar gyfer y grŵp oedran hwn, er y gellir dadlau ei fod yn berthnasol i bob grŵp oedran, yw bod datblygu sgiliau darllen yn yr oedran hwn yn hanfodol i feithrin mwynhad o ddarllen, ac atal dysgwyr ifanc rhag datblygu agweddau negyddol a diffyg hyder mewn darllen.

Ymhellach, canfuwyd bod dysgwyr dan anfantais (y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim) wedi'u heffeithio'n anghymesur, gyda data cyrhaeddiad yn nodi tua 7 mis yn llai o gynnydd mewn darllen na'u cyfoedion dros y flwyddyn ysgol 2020-2021. Sefydlogodd y bwlch anfantais hwn ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 2 a lleihawyd ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 1 erbyn tymor yr Haf, sy'n nodi cyfradd adferiad tebyg i'w cyfoedion. Fodd bynnag, fel y noda Twist, Jones a Threleaven, gydag adnoddau a mentrau ychwanegol wedi'u canolbwyntio'n helaeth ar ddysgwyr difreintiedig, mae'r sefydlogi hwn, yn hytrach na chau'r bwlch Covid, yn awgrymu y gallai fod angen dulliau amgen i unioni'r annhegwch hwn.

Er nad yw'r adroddiad presennol yn ymchwilio i addysg ysgol uwchradd, mae'n bwysig ystyried yr effaith ar ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 3, y gallai'r tarfu ar y ddarpariaeth yn ystod eu blynyddoedd olaf yn yr ysgol gynradd fod wedi effeithio ar lawer ohonynt. Er bod Twist, Jones a Threleaven (2022) yn nodi diffyg tystiolaeth ynghylch effaith Covid-19 ar gyrhaeddiad dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 3, maent hefyd yn adrodd rhywfaint o dystiolaeth sy'n nodi cyfraddau adferiad is a bwlch Covid uwch ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 3 na dysgwyr oed cynradd ar ddiwedd blwyddyn ysgol 2020-2021 (Yr Adran Addysg, 2021). Mae'n bwysig inni ddeall heriau penodol dysgwyr a bontiodd o addysg gynradd i addysg uwchradd yn ystod y pandemig, a pha gymorth y gallai fod ei angen ar y dysgwyr hyn i ddatblygu sgiliau darllen hyfedr.

Wrth ymchwilio i effaith benodol y pandemig ar ddeilliannau i ddysgwyr yng Nghymru, mae'n amlwg nad oes digon o dystiolaeth i allu dod i gasgliadau cadarn. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod gan ddysgwyr yng Nghymru rai o'r oriau dysgu gartref isaf ar draws y DU (Sibieta a Cottell, 2020), a rhai o'r cyfraddau presenoldeb isaf yng Nghymru ar ailagor (llai na 70% yng nghanol mis Rhagfyr 2020; Sibieta & Cottell, 2021). Felly, er bod yr adroddiadau hyn ar ddeilliannau darllen yn seiliedig ar ddata cyrhaeddiad o Loegr, mae'n ddigon posibl y byddwn yn rhagweld effeithiau tebyg ar ddarllen i ddysgwyr yng Nghymru.

3.3 Dod allan o'r pandemig: polisïau i gefnogi adferiad

Mae deall sut mae'r pandemig wedi effeithio ar staff a dysgwyr ledled Cymru, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu darllen, yn hollbwysig er mwyn nodi a gweithredu cymorth effeithiol.

Mae polisi Adnewyddu a Diwygio: cefnogi llesiant a dilyniant dysgwyr (2021) Llywodraeth Cymru yn nodi blaenoriaethau'r llywodraeth a'r fframwaith cymorth yn yr ymateb i Covid-19 a'r cyfnod pan fydd ysgolion ar gau. Nod y polisi yw meithrin gallu dynol ychwanegol i gefnogi dysgwyr sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf. Yn fras maent yn cynnwys; dysgwyr yn y blynyddoedd cynnar, dysgwyr agored i niwed a difreintiedig, dysgwyr ôl-16 a'r rhai sy'n trosglwyddo i addysg bellach ac uwch.

Mae canlyniadau'r prosiect ymchwil hwn yn berthnasol iawn i'r Rhaglen Lywodraethu a'r Rhaglen Adnewyddu a Diwygio (Llywodraeth Cymru, 2021). Er enghraifft:

Bydd deall y materion cyfredol a wynebwr mewn ysgolion cynradd ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) mewn perthynas ag agweddau ar ddarpariaeth llythrennedd, nodi arfer da, a nodi tystiolaeth ac anghenion cymorth, yn helpu i roi gwybod i ni sut y gellir lleihau anghydraddoldebau addysgol a chodi safonau yn y maes hwn. Bydd deall sut mae'r pandemig wedi effeithio ar staff a dysgwyr, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu darllen, a sut mae staff wedi ymateb i'r heriau, yn helpu i lywio pa gymorth sydd ei angen i sicrhau bod dysgwyr mewn ysgolion cynradd ac ADY yn datblygu sylfaen gadarn mewn sgiliau llythrennedd.

Deall pa ddarpariaeth neu raglenni a ddefnyddiwyd a'r dystiolaeth o effeithiolrwydd y gellir ei defnyddio i dargedu cyllid Grant Datblygu Disgyblion i gefnogi dysgwyr sydd dan anfantais neu ddysgwyr sy'n agored i niwed sydd mewn angen.

Yn ogystal â'r ymrwymadau a nodir yn y polisi Adnewyddu a Diwygio, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyfanswm o £150 miliwn mewn cyllid rhwng 2021 a 2022, yn ogystal â dros £220 miliwn yn 2020 i 2021 i hybu'r gwaith Recriwtio, Adfer, Codi Safonau (RACS): rhaglen ddysgu carlam mewn ymateb i bandemig Covid-19 (Llywodraeth Cymru, 2021). Bydd y rhaglen RACS yn parhau i ddarparu capasiti dynol ychwanegol er mwyn cefnogi dysgwyr i fynd i'r afael â'u hanghenion yn dilyn y pandemig a'r cyfnod o gau ac amharu ar ysgolion, er mwyn galluogi ysgolion i adnabod y dysgwyr sydd â'r angen mwyaf a sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn botensial.

Bydd clywed profiadau a chanfyddiadau staff ysgol ar sut mae'r pandemig wedi effeithio ar addysgu darllen ar draws ysgolion yng Nghymru hefyd yn ein galluogi i

archwilio sut mae ysgolion wedi defnyddio capasiti o fewn eu sianeli lleol a chenedlaethol i gefnogi eu hysgol a'u dysgwyr.

4. Nodau a chwestiynau ymchwil

Bydd gallu deall y ddarpariaeth, y strategaethau a'r heriau y mae darparwyr addysg yn eu hwynebu yn galluogi adnabod arfer da a meysydd i'w gwella. Gallai hyn gefnogi'r strategaeth genedlaethol i adfer ar ôl Covid-19, tra hefyd yn bwydo i mewn i newidiadau ehangach gyda'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

Mae'r cyd-destun presennol yn gyfle amhrisiadwy i bwysu a mesur arferion presennol ac arferion sydd wedi'u datblygu'n ddiweddar, ac i nodi arferion ac arloesiadau effeithiol sy'n deillio o'r addasiadau y bu'n rhaid i ymarferwyr addysgol eu datblygu er mwyn parhau i addysgu eu dysgwyr drwy amhariadau digynsail. Mae hefyd yn gyfle i nodi meysydd penodol ar gyfer ymchwil pellach i alluogi darpariaeth ddarllen effeithiol i ddysgwyr mewn ysgolion cynradd ac ADY ledled Cymru.

4.1 Nodau'r ymchwil

- Archwilio addysgu darllen mewn ysgolion cynradd ac ADY, gan gynnwys cynbandemig, yn ystod y pandemig (h.y., cyfnod estynedig o gau ysgolion), ac arfer presennol.
- Archwilio cynnydd darllen a chyrhaeddiad dysgwyr mewn ysgolion cynradd ac ADY yn ystod y pandemig.
- Crynhoi arfer cyfredol mewn perthynas â thystiolaeth ymchwil gyfredol, a nodi meysydd allweddol ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.

4.2 Cwestiynau Ymchwil

C1. Sut mae'r pandemig wedi effeithio ar addysgu darllen mewn ysgolion cynradd ac ADY yng Nghymru?

- Pa raglenni/dulliau a ddefnyddiwyd mewn ysgolion cynradd ac ADY cyn y pandemig, a sut cafodd y rhain eu darparu?
- Pa raglenni/dulliau a ddefnyddiwyd yn ystod y pandemig, a sut cafodd y rhain eu darparu?
- Pa raglenni/dulliau gweithredu sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, a sut mae'r rhain yn cael eu darparu?

C2. Sut mae'r pandemig wedi effeithio ar gynnydd darllen a chyrhaeddiad dysgwyr mewn ysgolion cynradd ac ADY yng Nghymru?

- Sut mae'r pandemig wedi effeithio ar yr asesiad o ddarllen?
- Beth yw canfyddiadau athrawon o effaith y pandemig ar gynnydd darllen a chyrhaeddiad dysgwyr mewn ysgolion cynradd ac ADY?

C3. Sut y gellir defnyddio tystiolaeth ymchwil gyfredol, mewnwelediadau ac arloesiadau o ysgolion cynradd ac ADY yng Nghymru i sicrhau y gellir cefnogi pob dysgwr yn effeithiol i wella eu sgiliau darllen wrth i ni weithio i wella ar ôl y pandemig?

5. Dulliau

5.1 Dyluniad ymchwil

Fe ddefnyddion ni ddyluniad ymchwil dull cymysg, sy'n ein galluogi i integreiddio cydrannau meintiol ac ansoddol. Tra bod dulliau ymchwil meintiol ac ansoddol yn dod o wahanol seiliau epistemolegol, mae eu defnyddio ar y cyd fel rhan o astudiaeth unigol yn gyffredin mewn cynlluniau ymchwil cyfoes. Mae defnyddio dulliau cymysg mewn ymchwil addysgol yn arbennig o ddefnyddiol, gan eu bod yn galluogi ymchwilwyr i ddal yn well y cymhlethdod sy'n gynhenid mewn cyd-destunau addysgol. Mae defnyddio dulliau meintiol ac ansoddol ar y cyd yn darparu rhywfaint o gadarnhad a chydgyfeiriant rhwng y data a gasglwyd, gan gryfhau cadernid y casgliadau (Almalki, 2016; Kelle, 2006). Yn y cyd-destun hwn, roedd dulliau ansoddol yn ein galluogi i ddal ehangder y profiadau, ac enghreifftiau amhrisiadwy o'r profiadau hyn, i ni fyfyrion ar ein dealltwriaeth a'i gwella.

Arbenigeddau tîm ymchwil

Roedd y tîm ymchwil yn cynnwys ymchwilwyr prifysgol ag arbenigedd mewn addysgu darllen, anghenion dysgu ychwanegol, ymchwil ymyrraeth a gwerthuso, methodoleg arolygon, ac ymchwil ansoddol. Mae un aelod o'r tîm hefyd â Statws Athro Cymwysedig fel athro ysgol gynradd.

5.2 Strategaeth samplu a recriwtio ysgolion

Ysgolion cynradd prif ffrwd. Ar gyfer yr arolwg ysgolion cynradd prif ffrwd, defnyddiwyd cynllun sampl systematig gyda haeniad ymhlyg ar gyfer dewis ysgolion cynradd allan o 1242 o ysgolion yng Nghymru (gan gynnwys ysgolion canol gyda dysgwyr oed cynradd). Dewiswyd ysgolion o restr drefnus yn ôl awdurdod lleol (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Bro Morgannwg, Torfaen a Wrecsam), ac o fewn awdurdod lleol yn ôl cyfrwng iaith (dwyr ffrwd, cyfrwng Saesneg, Saesneg gyda Chymraeg sylweddol, Trosiannol a chyfrwng Cymraeg) a chanran y dysgwyr mewn ysgolion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (sgoriau canran cymedrig) ar gyfer 2019/21. O fewn pob ysgol dewiswyd yr arweinydd llythrennedd, athrawon y Cyfnod Sylfaen, a Chyfnod Allweddol 2 a'u gwahodd i gwblhau'r holiadur ar ddarpariaeth llythrennedd mewn ysgolion.

Roedd yr holiaduron i'w cwblhau ar-lein ac anfonwyd llythyr gwahoddiad e-bost cychwynnol at bennaeth yr ysgol ym mis Mawrth 2022, gan gonsortia ysgolion rhanbarthol Cymru (GwE, EAS, Partneriaeth Canolbarth Cymru, CSC, Castell-nedd Port Talbot, Partneriaeth), a thri nodyn atgoffa dilynol ar ffurf cyfarfod Zoom, e-bost a galwad ffôn.

Rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2022 gwahoddwyd ysgolion i sesiwn Zoom ar-lein i annog ysgolion i ymgysylltu ag arolygon RTG. Yna anfonwyd e-bost atgoffa dilynol i'r ysgolion ar ffurf e-bost ym mis Mai 2022. Anfonwyd hwn i'r ysgolion drwy'r consortia ysgolion, a soniodd y byddai swyddogion ymchwil y RTG yn cysylltu ag ysgolion gyda galwad dilynol cwrteisi i'w hatgoffa. Rhwng mis Mai a mis Mehefin 2022,

gwnaed y galwadau ffôn atgoffa dilynol terfynol i'r ysgolion i annog ysgolion i ymgysylltu ag arolygon RTG.

Unwaith y derbyniodd ysgol wahoddiad y prosiect RTG, anfonwyd dolen arolwg yr holiadur llythrennedd at bennaeth yr ysgol/aelod o staff enwebedig i'w anfon ymlaen at yr athrawon perthnasol yn yr ysgol (h.y., arweinydd llythrennedd, athrawon Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2). Gellid cwblhau'r arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Ymgwymerwyd â'r llythyrau gwahoddiad i ysgolion a'r nodiadau atgoffa fel rhan o brosiectau ysgol RTG eraill Prifysgol Bangor lle gwahoddwyd penaethiaid yr ysgolion dethol i brosiectau RTG eraill. Gwahoddwyd ysgolion i gymryd rhan mewn 3 neu 4 prosiect arall o fewn y gwahoddiad hwn. Fodd bynnag, roedd y prosiectau eraill yn cynnwys poblogaethau astudio gwahanol (e.e., Arweinwyr Llythrennedd, Arweinwyr Llais Disgyblion, y dysgwyr eu hunain), i leihau'r baich ymateb neu ddisgwyliadau aelodau unigol o staff ym mhob ysgol.

Ysgolion ADY. Oherwydd y nifer fechan o ysgolion ADY ar draws Cymru, ni ddefnyddiwyd strategaeth samplu; gwahoddwyd pob un o'r 40 ysgol ADY ledled Cymru i gymryd rhan yn Arolwg 2, gan ddefnyddio'r un broses wahodd ag ysgolion ar gyfer Arolwg 1.

5.3 Cyfranogwyr

Y cyfranogwyr ar gyfer yr astudiaeth hon oedd arweinwyr llythrennedd ac athrawon a oedd yn gyfrifol am gynllunio neu gyflwyno darpariaeth llythrennedd cyn, yn ystod ac ar ôl y pandemig. Roedd y cyfranogwyr yn gweithio naill ai mewn lleoliad ysgol gynradd prif ffrwd neu ysgol ganol, neu ysgol ADY.

5.3.1 Cyfranogwyr yr arolwg

Datblygwyd dau arolwg, un ar gyfer ysgolion cynradd a chanol (Arolwg 1), ac un ar gyfer ysgolion ADY (Arolwg 2). Ceir rhagor o wybodaeth am y ddau arolwg yn adran 5.4.

At ei gilydd, cymerodd 52 o ysgolion cynradd prif ffrwd yng Nghymru ran yn Arolwg 1. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd ymateb o 6.38%. Yr ymateb gan athrawon mewn ysgolion a gymerodd ran oedd 12.88%, gan gynhyrchu cyfanswm o 105 o holiaduron wedi'u cwblhau. Dim ond 15 o ysgolion a gwblhaodd bob adran o'r arolwg. Ar gyfer 12 ysgol, dim ond Adran 1 (ar gyfer Arweinwyr Llythrennedd) a gwblhawyd.

Tabl 1. Adrannau arolwg wedi'u cwblhau gan athrawon mewn ysgolion cynradd prif ffrwd

laith y ddarpariaeth	Cyfanswm yr ysgolion	Cyfanswm yn cwblhau Adran 1 (Arweinydd Llythrennedd)	Cyfanswm yn cwblhau Adran 2 (Athro Cyfnod Sylfaen)	Cyfanswm yn cwblhau Adran 3 (Athro CA2)
Cymraeg	9	7	1	4
Saesneg	42*	36	29	32

Ffrwd ddeuol	1	1	1	1
Cyfanswm	52	40	30	35

***Roedd 3 o'r ysgolion hyn yn rhai cyfrwng Saesneg gyda Chymraeg sylweddol**

Cymerodd saith o ysgolion ADY ran yn yr arolwg, sy'n cynrychioli cyfradd ymateb o 17.5%. Fodd bynnag, ni chwblhaodd yr un ysgol bob adran, a dim ond Adran 1 a gwblhaodd 5 ysgol (ar gyfer Arweinwyr Llythrennedd).

Tabl 2. Adrannau arolwg a gwblhawyd gan athrawon mewn ysgolion ADY.

laith y ddarpariaeth	Cyfanswm yr ysgolion	Cyfanswm yn cwblhau Adran 1 (Arweinydd Llythrennedd)	Cyfanswm yn cwblhau Adran 2 (Cyfnod Sylfaen / Athro CA2)	Cyfanswm yn cwblhau Adran 3 (Athro CA3 / CA4)
Cymraeg	1	1	1	0
Saesneg	6	5	3	2
Cyfanswm	7	6	4	2

5.3.2 Cyfranogwyr y cyfweiliad

Cynhaliwyd chwe chyfweiliad gydag athrawon o ysgolion cynradd prif ffrwd, gyda 5 ohonynt hefyd wedi cymryd rhan yn yr arolwg. Cynhaliwyd 3 chyfweiliad pellach gydag athrawon o ysgolion ADY, gyda 2 ohonynt hefyd wedi cymryd rhan yn yr arolwg.

Tabl 3. Cyfranogwyr y cyfweiliad ar gyfer ysgolion prif ffrwd ac ADY, iaith y ddarpariaeth, a grŵp oedran dysgwyr.

Math o ysgol	ID cyfranogwr	laith y ddarpariaeth	Grŵp oedran y dysgwyr*
Cynradd prif ffrwd	DW	Cyfrwng Saesneg	Cyfnod Sylfaen
Cynradd prif ffrwd	TM	Cyfrwng Saesneg	Cyfnod Sylfaen
Cynradd prif ffrwd	SC	Cyfrwng Saesneg	Cyfnod Allweddol 2
Cynradd prif ffrwd	SX	Cyfrwng Saesneg	Cyfnod Allweddol 2
Cynradd prif ffrwd	WL	Cyfrwng Saesneg	Cyfnod Allweddol 2
Cynradd prif ffrwd	JK	Cyfrwng Cymraeg	Cyfnod Sylfaen
Ysgol ADY	UL	Ysgol cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr rhwng 3 ac 16 oed gyda darpariaeth ôl-16.	Cyfnod Sylfaen
Ysgol ADY	BD	Cyfrwng Saesneg ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 16 oed sydd â darpariaeth ôl-16.	Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4

Ysgol ADY	FG	Cyfrwng Saesneg ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 16 oed sydd â darpariaeth ôl-16.	Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4
-----------	----	--	--

*Wedi'i addysgu gan y cyfweilai yn ystod cyfnod y pandemig cyntaf

5.4 Dulliau casglu data: Arolwg

5.4.1 Dyluniad yr arolwg

Datblygwyd arolygon meintiol gan y tîm ymchwil, yn cynnwys cyfuniad o ymatebion caeedig, graddedig, a chwestiynau penagored i ganiatáu ar gyfer ymatebion manylach. Cynlluniwyd yr arolygon i fod yn ddilyniannol ac wedi'u clystyru i'r cyfnodau amser perthnasol, gan ganiatáu i ymatebwyr adrodd ar eu profiadau mewn trefn gronolegol. Gan fod y cwestiynau ymchwil yn canolbwyntio ar effaith Covid-19 ar y ddarpariaeth ddarllen, cynlluniwyd yr arolygon i edrych ar y ddarpariaeth cyn, yn ystod, ac ar ôl cau ysgolion.

Er mwyn sicrhau eglurder ynghylch y cyfnodau amser y cyfeiriwyd atynt drwy gydol yr arolwg, darparwyd llinell amser gweledol ym mhob adran berthnasol i ymatebwyr gyfeirio ati. (Gweler Atodiad B). Roedd hyn yn ei gwneud yn glir bod y cwestiynau'n ymwneud yn benodol â'r ddau brif gyfnod estynedig o gau ysgolion; y cyfnod clo cychwynnol o fis Mawrth i fis Gorffennaf 2020, a'r ail gyfnod clo o fis Ionawr i fis Mawrth 2021. Er bod amhariad ychwanegol ar ffurf cloeon lleol pellach, cyfnod atal byr a dychweliadau graddol mewn rhai ardaloedd, roedd dau gyfnod penodol o gau ysgolion eang a gafodd eu cynnwys yn yr astudiaeth hon.

Datblygwyd dau arolwg, un ar gyfer ysgolion cynradd, ac un ar gyfer ysgolion ADY. Datblygwyd arolygon ar wahân ar gyfer yr ysgolion cynradd ac ADY hyn oherwydd y gwahaniaethau sylweddol yn y ddarpariaeth nodweddiadol, a'r gwahaniaethau tebygol yn natur yr aflonyddwch a'r heriau. Ym mhob arolwg, gofynnwyd i dri aelod o staff ddarparu ymatebion. Ar gyfer yr arolwg ysgolion cynradd (Arolwg 1), roedd ymatebwyr i gynnwys: 1) yr Arweinydd Llythrennedd; 2) athro Cyfnod Sylfaen, a 3) athro dosbarth Cyfnod Allweddol 2. Ar gyfer yr arolwg ysgolion ADY (Arolwg 2), roedd ymatebwyr i gynnwys: 1) Yr Arweinydd Llythrennedd neu aelod priodol o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA); 2) athro dosbarth Cyfnod Sylfaen neu Gyfnod Allweddol 2, a 3) athro dosbarth Cyfnod Allweddol 3 neu 4. Cyflawnwyd hyn trwy rannu pob arolwg yn 3 adran, pob un i'w llenwi gan yr aelod staff perthnasol. Roedd dau reswm dros ddefnyddio'r dull hwn, ac roedd y ddau ohonynt yn ymwneud â'n cynllun peilot o'r arolygon. Yn gyntaf, i leihau'r risg o flinder cyfranogwyr ac athreuliad drwy rannu'r llwyth o ymateb. Yn ail, sicrhau y gallai cwestiynau penodol yn ymwneud â darpariaeth ddarllen ac effaith ganfyddedig a/neu fesuradwy'r pandemig ar ddarllen cael eu targedu at yr aelod staff mwyaf perthnasol (e.e., osgoi disgwyliad y bydd athro Cyfnod Sylfaen yn gallu darparu gwybodaeth am yr ysgol gyfan). Mantais ychwanegol y dull hwn yw ei fod wedi caniatáu inni gasglu profiadau o safbwynt tair rôl ym mhob ysgol.

Roedd cynnwys a strwythur y ddau arolwg yn debyg iawn, fel yr amlinellir isod. (Gweler Atodiadau A a B).

Roedd Adran 1 (i'w chwblhau gan yr Arweinydd Llythrennedd neu aelod o'r UDA) yn cynnwys cwestiynau amrywiol i gasglu gwybodaeth am yr ysgol gyfan, gan gynnwys pa grwpiau blwyddyn ac ym mha iaith y mae addysgu darllen yn dechrau, cyfran a nodweddion y dysgwyr a fynychodd yr ysgol yn ystod y cyfnodau clo pandemig (boed yn eu hysgol neu ar safle gwahanol), effaith fesuradwy a/neu ganfyddedig y pandemig ar gyrhaeddiad darllen ar draws yr ysgol, unrhyw effeithiau anghymesur a arsylwyd (e.e., darllenwyr sy'n dechrau, dysgwyr sy'n pontio i'r ysgol uwchradd), a'u persbectif ar y blaenoriaethau a'r mathau o gymorth sydd eu hangen ar eu dysgwyr mewn perthynas â'u datblygiad darllen.

Roedd Adran 2 (i'w chwblhau gan athro dosbarth cyfnod sylfaen, neu athro dosbarth Cyfnod Allweddol 1 neu 2 ar gyfer Arolwg 2) yn cynnwys cwestiynau ynghylch y ddarpariaeth ddarllen i ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 1 cyn y pandemig (gan gynnwys y prif raglenni neu ddulliau a ddefnyddiwyd), y ffyrdd y newidiodd y ddarpariaeth yn ystod y ddau gyfnod clo estynedig (gan ganolbwyntio ar ddysgwyr gartref, ond nid yn gyfan gwbl), ymgysylltiad dysgwyr a oedd gartref, yr effeithiau canfyddedig ar gyrhaeddiad darllen dysgwyr yn y cyfnod sylfaen, a'r graddau y mae darpariaeth a chynnydd dysgwyr yn dal i gael eu heffeithio. Fel yn yr adran flaenorol, gofynnwyd i athrawon y cyfnod sylfaen am eu persbectif ar y blaenoriaethau a'r mathau o gymorth sydd eu hangen ar eu dysgwyr mewn perthynas â'u datblygiad darllen.

Roedd Adran 3 (i'w chwblhau gan athro dosbarth Cyfnod Allweddol 2, neu athro dosbarth Cyfnod Allweddol 3 neu 4 ar gyfer Arolwg 2) yn cynnwys yn union yr un cynnwys ag Adran 2 ond mewn perthynas ag effaith y pandemig ar ddarpariaeth a dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 2. Hefyd ychwanegwyd ychydig o gwestiynau yn ymwneud ag effaith y pandemig ar ddysgwyr ysgol gynradd hŷn, gan gynnwys y rhai sy'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

5.4.2 Treialu arolygon: arolwg ysgolion cynradd

Roedd dadansoddiad interim o ddata'r arolwg yn sail i'r mathau o gwestiynau a oedd wedi'u cynnwys yn yr amserlen gyfweld.

Adolygwyd fersiynau cychwynnol o Arolwg 1 gan sampl o 6 athro yng Nghymru, gan gynnwys Pennaeth, Arweinydd Llythrennedd, ac athrawon dosbarth yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2, am berthnasedd, cywirdeb ac eglurder y geiriad a'r derminoleg. Gweithiodd pob adolygydd drwy'r arolwg ac yna fe'i gwahoddwyd i roi adborth i aelod o'r tîm ymchwil. Roedd yr adborth yn cynnwys pryderon ynghylch hyd yr arolwg a lefel y manylder a ddisgwyllir mewn rhai adrannau, a rhai awgrymiadau yn ymwneud â defnydd iaith a therminoleg (e.e., sut orau i gyfeirio at ddarllenwyr yr oedd angen cymorth ychwanegol wedi'i dargedu arnynt ar gyfer darllen). Yna rhoddwyd prawf pellach ar fersiwn ddiwygiedig o'r arolwg a oedd yn cynnwys yr adborth hwn, gan gynnwys adborth pellach gan y sampl cychwynnol o athrawon, ynghyd â 2 athro ychwanegol nad oeddent wedi bod yn rhan o'r rownd adolygu gychwynnol.

5.4.3 Treialu arolygon: ysgolion ADY

Defnyddiwyd dull tebyg gydag Arolwg 2, gyda sampl o 3 athro ar draws 2 ysgol ADY yn adolygu fersiwn gychwynnol yr arolwg (gan gynnwys Pennaeth a 2 arweinydd Llythrennedd a oedd hefyd yn athrawon dosbarth yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2)

ac yn rhoi adborth i'r tîm ymchwil. Roedd yr adborth yn canolbwyntio'n bennaf ar yr angen am fwy o eglurder mewn perthynas â gwahanol lefelau o sgiliau darllen y gallai dysgwyr fod yn gweithio arnynt, sy'n berthnasol i'r dysgwyr amrywiol a gynrychiolir mewn lleoliadau ysgol ADY. Arweiniodd hyn at y fersiwn derfynol yn cynnwys cwestiynau ar wahân yn ymwneud â darpariaeth ac effaith y pandemig ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio ar sgiliau cyn darllen/llythrennedd sy'n dod i'r amlwg, y rhai sy'n gweithio ar sgiliau darllen cynnar (e.e., ffoneg), a'r rhai sy'n gweithio ar sgiliau darllen uwch (e.e., darllen a deall).

Bu athrawon Cymraeg eu hiaith yn craffu ar fersiynau wedi'u cyfieithu o'r ddau arolwg er mwyn sicrhau bod y derminoleg a'r naws briodol i rai o'r cwestiynau wedi'u cynnwys yn y cyfieithiad, gyda newidiadau'n cael eu gwneud yn ôl yr angen i sicrhau bod yr arolygon Cymraeg a Saesneg yn debygol o gael eu derbyn a'u dehongli mewn ffordd debyg.

5.5 Dulliau casglu data: Cyfweiliadau

5.5.1 Dylunio, treialu, a chynnal y cyfweiliadau

Roedd cysylltiad agos rhwng amserlen y cyfweiliadau a'r arolwg, gan gynnwys yr un themâu er mwyn caniatáu ar gyfer archwiliad pellach a dealltwriaeth fwy cyfoethog o'r cyd-destun a'r ddarpariaeth ddarllen ym mhob ysgol, a phrofiadau a chanfyddiadau'r cyfweleion. Fe wnaethom ddefnyddio'r adborth o'r treialu i nodi meysydd y gallai fod angen esboniad pellach arnynt neu anogaeth i ymhelaethu arnynt yn y cyfweiliadau. Defnyddiwyd dull cyfweld lled-strwythuredig fel y gallai'r ymchwilydd ymdrin â themâu penodol, ond gadawyd lle ac amser i'r cyfweleion drafod elfennau perthnasol, neu i'r ymchwilwyr archwilio unrhyw bynciau, safbwyntiau, neu brofiadau nad oeddent o bosibl wedi'u cynnwys yn yr amserlen. Cyn dechrau'r cyfweiliadau ymchwil, cafodd yr amserlen gyfweld ei threialu gyda dau athro.

5.5.2 Samplu cyfweiliadau a recriwtio

Ar gyfer pob ysgol, ceisiwyd cyfweld â'r Arweinydd Llythrennedd (neu aelod addas arall o'r UDA ar gyfer yr ysgol), ac athro dosbarth neu Gynorthwydd Addysgu Lefel Uwch (CALU) â chyfrifoldeb am gyflwyno darpariaeth darllen. Ac eithrio un ysgol lle cafodd aelod o'r UDA ac athro dosbarth eu cyfweld gyda'i gilydd, dim ond un aelod o staff a gafodd ei gyfweld ym mhob ysgol.

Fe wnaethom ddefnyddio dau ddull o recriwtio ysgolion i gyfweld: 1) Gwahodd ymatebwyr i'r arolwg i fynegi diddordeb ar ddiwedd yr arolwg; 2) gwahodd ysgolion yn uniongyrchol trwy gysylltiadau a rhwydweithiau proffesiynol. Dilynwyd yr holl ddatganiadau o ddiddordeb ac aethant ymlaen i gyfweliad ac eithrio tri achos lle nad oedd y cyfranogwr posibl bellach yn gallu cymryd rhan.

5.6 Dadansoddi data

5.6.1 Dadansoddi data arolwg

Cafodd ymatebion y cyfranogwyr i eitemau'r arolwg meintiol eu dadansoddi a'u gwerthuso gan ddefnyddio ystadegau disgrifiadol yn unol â'n cwestiynau ymchwil.

Defnyddiwyd dadansoddiad thematig adfyfyriol i ddadansoddi'r ymatebion penagored (Braun & Clarke, 2006).

5.6.2 Dadansoddi data cyfweliadau

Roedd sesiynau cyfweld a gynhaliwyd ar-lein yn cael eu recordio ar fideo gan ddefnyddio llwyfan recordio ar-lein diogel a chafodd sesiynau cyfweld a gynhaliwyd wyneb yn wyneb eu recordio ar sain gan ddefnyddio dictaffon. Anfonwyd yr holl recordiadau yn electronig i wasanaeth trawsgrifio proffesiynol i'w trawsgrifio ac fe'u dychwelwyd ar ffurf electronig yn barod i'w dadansoddi. Gwnaethom ddefnydd o'r themâu a bennwyd ymlaen llaw a oedd yn berthnasol i'n hymchwil a chwestiynau cyfweliad, yn ogystal ag archwiliad anwythol o themâu eraill a arsylwyd yn y dadansoddiad. Dilynwyd strategaeth thematig Braun a Clarke (2006) i ddadansoddi data cyfweliadau a'r cwestiynau penagored a gynhwyswyd yn yr arolwg.

Ar ôl i ymchwilydd ymglyfarwyddo â'r set ddata cyfan, dechreuon nhw gynhyrchu codau cychwynnol a oedd wedyn yn cael eu croeswiro rhwng ymchwilydd gan ddefnyddio proses a elwir yn ddibynadwyedd rhyngodiwr (DRG). Mae DRG yn cryfhau dibynadwyedd y broses ddadansoddi (Kurasaki, 2000) trwy archwilio'r categorïau a'r prosesau penderfynu a wnaed gan yr ymchwilydd cyntaf. Cyfrifwyd DRG ar gyfran (24%) o'r cwestiynau penagored wedi'u codio. Rhannodd yr ymchwilydd y nifer oedd yn cytuno â chyfanswm y rhai oedd yn cytuno ynghyd ag y rhai oedd yn anghytuno. Cyfrifwyd mai cyfanswm y sgôr oedd nifer yn cytuno yn 95.7% rhwng dau ymchwilydd. Roedd y trydydd cam yn golygu bod yr ymchwilydd yn trefnu'r codau yn gategorïau thematig ar wahân. Diffinnir thema fel 'ymateb patrwm ystyr' gydag eitemau data ac ar draws y set ddata cyfan (Braun & Clarke, 2006). Roedd y camau olaf yn y broses o gynnal y dadansoddiad thematig yn cynnwys adolygu, labelu, a diffinio'r set derfynol o is-themâu. Roedd y chweched cam a'r cam olaf yn y dadansoddiad o gynnwys thematig yn cynnwys cynhyrchu'r adroddiad thematig terfynol.

6. Canfyddiadau arolwg

Er bod saith ysgol ADY yn cael eu cynrychioli yn yr arolwg, dim ond Adran 1 (ar gyfer yr Arweinydd Llythrennedd) a gwblhawyd ym mhob ysgol, gyda chryn dipyn o ddata coll neu anghyflawn ar gyfer adrannau eraill yr arolwg. Oherwydd hyn, ar gyfer data arolwg ysgolion ADY, dim ond data meintiol Adran 1 yr ydym wedi'u hadrodd (sy'n dal y cyd-destun cyfnodau clo a darpariaeth cyn-bandemig), a'r wybodaeth ddisgrifiadol a data ansoddol o'r ymatebion penagored. Mae tablau sy'n cynnwys cyfwng hyder ar gyfer yr holl ddadansoddiad o ysgolion cynradd prif ffrwd i'w gweld yn Atodiad E.

6.1 Cipio cyd-destun addysg cyfnod clo ar gyfer ysgolion cynradd prif ffrwd ac ysgolion ADY

6.1.1 Diffiniadau o 'yn yr ysgol' a chyfran y dysgwyr yn yr ysgol

Ysgolion cynradd prif ffrwd. Roedd p'un a oedd 'yn yr ysgol' yn cyfeirio at ysgol y dysgwyr ei hun ai peidio, yn amrywio ar draws ysgolion ac ar draws cyfnodau clo. Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, dim ond 20% o athrawon a nododd fod dysgwyr yn mynychu'r ysgol ei hun, gyda'r mwyafrif yn mynychu hwb yn rhywle arall. Fodd bynnag, yn ystod yr ail gyfnod clo, nododd 90% o athrawon fod dysgwyr a oedd yn yr ysgol yn mynychu'r ysgol ei hun.

Tabl 4. Cyfran yr ysgolion cynradd prif ffrwd sy'n adrodd am bob diffiniad o 'yn yr ysgol' yn ystod y cyfnod clo cyntaf a'r ail gyfnod clo.

Diffiniadau o 'yn yr ysgol'	Cyfnod clo cyntaf (% o ysgolion)	Ail gyfnod clo (% o ysgolion)
Ysgol	20	90
Safle/Hwb gwahanol	60	5
Hwb yn yr ysgol	15	5
Ar y safle ac yna Hwb	2.5	0
Hwb i blant agored i niwed a dysgu ar-lein i eraill	2.5	0

Dywedodd 95% o ysgolion cynradd prif ffrwd fod yna lai na 25% o'u dysgwyr yn nodweddiadol yn yr ysgol yn ystod y cyfnod clo cyntaf, ac ni nododd unrhyw ysgol fod mwy na 50% o'u dysgwyr yn nodweddiadol yn yr ysgol yn ystod yr un cyfnod. Rhwng y cyfnodau clo cyntaf a'r ail, roedd cyfran uwch o ddysgwyr mewn llawer o ysgolion, gan gynyddu o lai na 25% i 25-50%. Dim ond 2% o ysgolion adroddodd dros 50% o ddysgwyr yn yr ysgol, a dim ond yn ystod yr ail gyfnod clo. Ni nododd yr un ysgol fod mwy na 75% o ddysgwyr yn yr ysgol yn ystod y cyfnod clo.

Yn ystod y ddau gyfnod clo, dywedodd dros 17% o ysgolion fod crynodiad uwch o ddysgwyr yn yr ysgol yn ddysgwyr Cyfnod Allweddol 2. I'r gwrthwyneb, dywedodd

bron i 8% o ysgolion fod crynodiad uwch o ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol yn ystod yr ail gyfnod clo. (Gweler Tabl 8, Atodiad C).

Tabl 5a. Cyfran yr ysgolion cynradd prif ffrwd a adroddodd am bob categori presenoldeb ‘yn yr ysgol’ yn ystod pob cyfnod clo.

Categori presenoldeb ‘yn yr ysgol’ (cyfran fras y dysgwyr ‘yn yr ysgol’)	Cyfnod clo cyntaf % yr ysgolion	Ail gyfnod clo % yr ysgolion
Llai na 25%	95.0	67.7
25-50%	5.0	30.1
51-75%	0	2.1

Ysgolion ADY. Dywedodd pob un o’r chwe ysgol ADY mai’r ysgol ei hun oedd ‘yn yr ysgol’, yn hytrach na lleoliad neu hwb arall, ar gyfer yr holl ddysgwyr a oedd yn mynychu’r ysgol yn ystod y naill gyfnod clo neu’r llall.

Dywedodd pump o’r chwe ysgol fod yna lai na 25% o ddysgwyr yn yr ysgol yn ystod y cyfnod clo cyntaf, gan ostwng i dair ysgol yn ystod yr ail gyfnod clo, a dywedodd un ysgol fod dros 75% o ddysgwyr fel arfer yn mynychu’r ysgol yn ystod yr ail gyfnod clo.

Tabl 5b. Cyfran yr ysgolion ADY a adroddodd am bob categori presenoldeb ‘yn yr ysgol’ yn ystod pob cyfnod clo.

Categori presenoldeb ‘yn yr ysgol’ (cyfran fras y dysgwyr ‘yn yr ysgol’)	Cyfnod clo cyntaf (nifer o ysgolion)	Ail gyfnod clo (nifer o ysgolion)
Llai na 25%	5	3
25-50%	1	1
51-75%	0	1
>75%	0	1

6.1.2 Nodweddion dysgwyr yn yr ysgol

Ysgolion cynradd prif ffrwd. Yn ystod y ddau gyfnod clo, nododd mwy na hanner yr ysgolion rai gwahaniaethau o ran nodweddion disgyblion sy’n mynychu, gan gynnwys cyfran uwch o blant sy’n derbyn gofal, plant agored i niwed, dysgwyr â Chynlluniau Ymddygiad Unigol, a dysgwyr a oedd yn cael trafferth darllen. (Gweler Tabl 9a, Atodiad C)

Ysgolion ADY. Dywedodd cyfran debyg o ysgolion ADY fod nodweddion dysgwyr a oedd yn nodweddiadol yn yr ysgol yr un fath â chyn y pandemig yn ystod y ddau

gyfnod clo. Nododd ysgolion eraill gyfrannau uwch o blant sy'n derbyn gofal a/neu blant agored i niwed yn ystod y cyfnodau clo cyntaf a'r ail, a nododd 2 ysgol gyfrannau uwch o blant ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol neu anghenion cymorth corfforol a meddygol yn ystod yr ail gyfnod clo. (*Gweler Tabl 9b, Atodiad C*).

6.1.3 Blaenoriaethu lleoedd mewn ysgolion

Ysgolion cynradd prif ffrwd. Dywedwyd bod grwpiau amrywiol o ddysgwyr yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer lle mewn ysgol yn ystod y cyfnod clo cyntaf a'r ail, ac yn y mwyafrif o ysgolion rhoddwyd blaenoriaeth i grwpiau lluosog. Roedd plant sy'n derbyn gofal, plant agored i niwed, a phlant gweithwyr allweddol yn cael eu blaenoriaethu yn y mwyafrif helaeth o ysgolion yn y cyfnod clo cyntaf a'r ail gyfnod clo. Cafodd plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a dysgwyr â Chynllun Datblygu Unigol eu blaenoriaethu ar gyfer lle mewn llawer o ysgolion yn ystod y ddau gyfnod clo, fodd bynnag, roedd hyn yn fwy cyffredin yn ystod yr ail gyfnod clo. (*Gweler Tabl 10a, Atodiad C*).

Ysgolion ADY. Roedd y blaenoriaethu ar gyfer lle mewn ysgolion ADY yn debyg iawn ar draws y ddau gyfnod clo, gydag un ysgol ychwanegol yn cynnwys plant ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn ystod yr ail gyfnod clo. (*Gweler Tabl 10b, Atodiad C*).

6.2 Darpariaeth ddarllen cyn-bandemig

Mae amrywiaeth eang rhwng ysgolion yng Nghymru o ran pa raglenni, ymyriadau ac adnoddau a ddefnyddir i addysgu darllen.

6.2.1 Cyfnod Sylfaen

Holwyd athrawon y Cyfnod Sylfaen am y ddarpariaeth llythrennedd Saesneg cyn y pandemig. At ei gilydd, nododd athrawon 36 o wahanol raglenni, ymyriadau, strategaethau, neu fanciau adnoddau. Roedd y rhain yn cynnwys strategaethau a ddyluniwyd gan athrawon, cyfeiriad at gyfresi penodol o lyfrau y gellir eu hargraffu, darpariaeth â chymorth cyfrifiadur, ac adnoddau sydd ar gael trwy lwyfan digidol Cymru ar gyfer dysgu ac addysgu a elwir yn 'Hwb'. Cyflwynwyd y ddarpariaeth gan ddefnyddio adnoddau materol a rhaglenni ac apiau â chymorth cyfrifiadur ar-lein. (*Gweler Tablau 11 a 12, Atodiad C*).

6.2.2 Cyfnod Allweddol 2

Dywedwyd bod 52 o wahanol raglenni, ymyriadau, strategaethau, neu fanciau adnoddau wedi'u defnyddio yn CA2. Roedd athrawon CA2 yn fwy tebygol o drafod strategaethau a ddyluniwyd gan yr athro a oedd yn canolbwyntio ar sgiliau lefel uwch megis didynnu, deall, a rhuglder, a gyflwynwyd trwy sesiynau darllen dan arweiniad, gwersi cyfan ar llythrennedd a thasgau a gynlluniwyd gan yr athro. (*Gweler Tablau 11 a 12, Atodiad C*).

6.2.3 Darpariaeth cyn-bandemig mewn ysgolion ADY

Adroddodd athrawon ysgol ADY fod 11 o wahanol raglenni, ymyriadau a banciau adnoddau yn cael eu defnyddio cyn y pandemig. Adroddwyd ar 5 o'r rhain hefyd gan ysgolion prif ffrwd, ac o'r 6 sy'n weddill na chawsant eu hadrodd gan ysgolion prif

ffrwd, roedd y mwyafrif yn rhaglenni, ymyriadau, neu adnoddau yn targedu sgiliau iaith (e.e., ELKLAN). (Gweler Tabl 13, Atodiad C).

Tabl 6. Categori rhaglen, ymyrraeth neu adnodd a Saesneg a'r ymyriadau a ddefnyddiwyd yn ôl adroddiadau ar draws ysgolion cynradd prif ffrwd ac ADY


Categori rhaglen, ymyrraeth neu adnodd	Ysgolion cynradd prif ffrwd	Ysgolion ADY
Electronig/ar-lein yn bennaf neu'n gyfan gwbl	23	6
Cyfuniad o adnoddau electronig/ar-lein a materol	12	1
Adnoddau materol yn bennaf neu'n gyfan gwbl	21	4

6.3 Effaith y pandemig ar ddarpariaeth: canlyniadau arolwg

6.3.1 Dysgwyr yn y cartref: Effaith ar ddarpariaeth ysgolion cynradd prif ffrwd

Soniodd y mwyafrif helaeth o athrawon am newidiadau yn y ddarpariaeth ddarllen i ddysgwyr gartref yn ystod y cyfnod clo cyntaf a'r ail gyfnod clo. (Gweler Ffigur 1). Fodd bynnag, roedd tuedd gyffredinol yn dangos bod yr effaith wedi lleihau yn yr ail gyfnod clo. Er enghraifft, gostyngodd cyfran yr athrawon a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod darpariaeth darllen ar gyfer dysgwyr gartref wedi newid o 92% i 87% (gyda'r gyfran a oedd yn cytuno'n gryf yn lleihau'n sylweddol, o 42% i 18%).

Darpariaeth ffoneg gyffredinol. Roedd lefel gref o gytundeb ar draws yr athrawon bod amllder a hyd sesiynau ffoneg wedi gostwng yn sylweddol ar gyfer dysgwyr gartref, yn ystod y ddau gyfnod clo. Er nad oedd hyn yn wir am bob athro; y gyfran a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r datganiad bod amllder sesiynau wedi dyblu (o 7% i 14%) ac wedi treblu ar gyfer y datganiad bod hyd sesiynau ffoneg wedi gostwng (o 3% i 9%), sy'n nodi bod rhai ysgolion wedi gallu darparu darpariaeth ffoneg fwy nodweddiadol yn ystod yr ail gyfnod clo.



Ffigur 1. Effaith y ddau gyfnod clo ar ddarpariaeth llythrennedd i ddysgwyr yn y cartref (ysgolion cynradd prif ffrwd).

Mae'r rhifau ar y chwith yn dynodi cyfran anghytuno, mae'r rhifau ar y dde yn dynodi cyfran cytuno, mae'r niferoedd yn y canol yn dynodi cyfran y naill na'r llall o'r cytuno neu'r anghytuno ar gyfer pob eitem. Gweler y tablau yn Atodiad D ar gyfer Cyfrwng Hyder a Rhifau Sylfaenol.

Darpariaeth darllen a deall. Roedd lefel gref o gytundeb ar draws athrawon bod y dull o addysgu strategaethau darllen a deall wedi newid yn ystod y ddau gyfnod clo (cytuno neu gytuno'n gryf o 82% a 75% yn y drefn honno). Fodd bynnag, cytunodd llawer llai o athrawon na allent addysgu strategaethau darllen a deall ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 2 yn uniongyrchol gartref yn ystod y cyfnodau clo (anghytuno neu anghytuno cryf o 54 % a 63% yn y drefn honno), sy'n nodi, er bod ffurf y ddarpariaeth wedi newid, bod llawer o ddysgwyr yn dal i gael eu haddysgu'n uniongyrchol mewn darllen a deall.

Darpariaeth wedi'i thargedu a gwahaniaethu. Mae ymatebion yn nodi bod darpariaeth wedi'i thargedu a gwahaniaethu ar gyfer dysgwyr sy'n cael trafferth darllen cael eu heffeithio yn sylweddol yn ystod y ddau gyfnod clo.

Roedd 67% o athrawon yn cytuno neu'n cytuno'n gryf nad oedd yn bosibl parhau â darpariaeth wedi'i thargedu ar gyfer dysgwyr a oedd yn cael trafferth darllen yn ystod y cyfnod clo cyntaf, ac adroddodd 59% yr un peth ar gyfer yr ail gyfnod clo.

Yn yr un modd, roedd 64% o athrawon yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf eu bod yn gallu parhau i ddarparu'r un strategaethau gwahaniaethu a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer dysgwyr a oedd yn cael trafferth darllen tra roedd dysgwyr gartref yn ystod y cyfnod clo cyntaf, ac adroddodd 54% yr un peth ar gyfer yr ail gyfnod clo.

Pan ofynnwyd iddynt i ba raddau yr oeddent yn gallu parhau i wahaniaethu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr a oedd yn cael trafferth darllen ac a oedd yn dysgu gartref, nododd llawer o athrawon eu bod yn gallu gwahaniaethu gwaith ar gyfer eu dysgwyr i ryw raddau yn ystod y ddau gyfnod clo, er bod y gyfran hon wedi lleihau ar gyfer Athrawon Cyfnod Sylfaen rhwng y cyfnodau clo ac wedi cynyddu ar gyfer athrawon CA2 rhwng y cyfnodau clo, sy'n dangos heriau ychwanegol wrth wneud hynny i ddysgwyr iau ar gyfer yr ail gyfnod clo.

Adroddodd athrawon amrywiaeth o ddulliau yn eu hymdrechion i wahaniaethu yn ystod y cyfnodau clo, y gellid eu categoreiddio i'r dulliau canlynol:

1. Defnyddio adnoddau darllen wedi'u lefelu ar gyfer yr oedrannau darllen priodol
2. Rhaglenni darllen ac apiau a oedd yn gwahaniaethu'n awtomatig yn ôl perfformiad dysgwyr a/neu'r lefel a bennwyd gan yr athro
3. Y mathau o gwestiynau a ofynnir, a thasgau a osodir yn ystod gwersi cydamserol ac anghydamseredig
4. Y defnydd o gefnogaeth gofalwyr a chyswllt aml â gofalwyr


Fodd bynnag, adroddwyd heriau sylweddol o ran ymgysylltu â rhieni, a gwahaniaethu ar gyfer pob plentyn yr oedd ei angen arno.

“Roedden ni'n hollol ddibynnol ar rieni yn ymgysylltu â ni. Roedd hyn yn achlysurol iawn.”

“[Roedd y gwahaniaethu] yn gyfyngedig iawn, yn aml yn teimlo mai'r rhai oedd angen rhagor o wahaniaethu a chymorth oedd y teuluoedd anoddaf eu cyrraedd ac yn ymgysylltu lleiaf.”

“Roedd Bug Club yn hygyrch i holl blant CA2 a gallai'r staff argymhell lefelau addas i'r plant ddarllen ohonynt. Fodd bynnag, roedd yn llawer anoddach darparu adnoddau ar gyfer plant ADY, yn enwedig yn ystod y cyfnod clo cyntaf pan na chaniatawyd i lyfrau gael eu hanfon adref/gael eu rhannu.”

Darpariaeth darllen Cymraeg. Roedd yr ymatebion yn nodi bod darpariaeth darllen Cymraeg yn cael ei heffeithio'n fwy negyddol na'r ddarpariaeth darllen Saesneg ar gyfer llawer o ddysgwyr gartref yn ystod y cyfnod clo cyntaf a'r ail gyfnod clo (77% a 73% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, yn y drefn honno). Fodd bynnag, ar gyfer rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg, adroddwyd bod darpariaeth darllen Saesneg yn cael ei heffeithio'n fwy negyddol (19% a 15% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, yn y drefn honno).



Ffigur 2. Effaith wahaniaethol a adroddwyd ar ddarpariaeth cyfrwng Saesneg a Chymraeg (ysgolion cynradd prif ffrwd).

Mae'r rhifau ar y chwith yn dynodi cyfran yr anghytundeb, mae'r rhifau ar y dde yn dynodi cyfran y cytundeb, mae'r niiferoedd yn y canol yn dynodi'r gyfran o beidio â chytuno nac anghytuno ar gyfer

pob eitem. Nid yw'r ffigur yn cynnwys ymatebion 'amherthnasol'. Gweler y tablau yn Atodiad D ar gyfer Cyfrwng Hyder a Rhifau Sylfaenol.

Pan ofynnwyd iddynt ymhelaethu ar unrhyw wahaniaethau yn yr effaith ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ar gyfer dysgwyr gartref, soniodd llawer o athrawon am broblemau oherwydd diffyg adnoddau sydd ar gael yn Gymraeg, a diffyg sgiliau rhieni a hyder yn y Gymraeg i gefnogi eu plant gyda darllen Cymraeg.

"Ychydig iawn o ddarllen Cymraeg a ddarparwyd gan mai ychydig iawn o gwmnïau oedd yn darparu'r adnodd hwn."

PFfCA1/2 5

"Roedd darllen Cymraeg yn fwy anodd i ddysgwyr gartref gan fod rhieni'n ei chael hi'n anoddach cefnogi eu plentyn. Diffyg adnoddau Cymraeg (Cymraeg fel iaith ychwanegol) ar gael ar y lefel gywir i ddysgwyr hefyd. I'r disgyblion a ymgysylltodd, roedd gweithgareddau darllen Saesneg yn cael eu blaenoriaethu gan rieni."

PFfCA1/2 10

Mewn rhai achosion, nododd athrawon fod disgwyliadau ynghylch cynnwys rhieni yn y ddarpariaeth ddarllen Cymraeg yn cael eu hystyried yn niweidiol i'w hymgysylltiad yn fwy cyffredinol, a oedd yn effeithio ar benderfyniadau ynghylch darpariaeth.

"Roedd yn anodd iawn cyflwyno darpariaeth Gymraeg. Gwnaethom rai gwersi byw ond yn y diwedd roedd yn haws mynd dros feysydd a ddysgwyd eisoes yn Gymraeg yn hytrach na chyflwyno pethau newydd wrth i gefnogaeth rhieni blymio ar gyfer y gwersi hyn. Doedd dim darpariaeth ddarllen yn Gymraeg."

PFfCA1/2 29

Fodd bynnag, nododd rhai ysgolion rai llwyddiannau o ran ymgysylltu pan wnaethant ddarparu cymorth ac adnoddau ychwanegol.

"Roedd rhai yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar rywfaint o'r darllen Cymraeg ond fe wnes i recordio fy hun er mwyn iddyn nhw allu clywed yr ynganiad cywir a chyfieithu popeth i rieni a dysgwyr."

PFfCA1/2 1

"...fe geision ni greu gweithgareddau lle gallem recordio ein hunain yn dweud y geiriau i helpu'r plant os a phan oedd ei angen arnynt."

PFfCA1/2 4

6.3.2 Effaith ar ddarpariaeth i ddysgwyr yn y cartref: data ansoddol ar gyfer ysgolion prif ffrwd ac ADY

Pan ofynnwyd i athrawon sut yr oeddent yn parhau i weithredu'r ddarpariaeth ddarllen ar gyfer dysgwyr sy'n derbyn eu haddysg gartref, nodwyd pedair thema allweddol o'u hymatebion.

1. Roedd y defnydd o apiau/rhaglenni/ gwefannau seiliedig ar lythrennedd yn bwysig wrth roi darpariaeth ddarllen ar waith ar gyfer dysgwyr a oedd yn derbyn eu haddysg gartref.

“Defnyddio'r apiau ar-lein fel y nodwyd o'r blaen ac anfon llyfrau adref ar-lein o You tube neu Powerpoint.”

PFfCA1/2 15

2. Roedd darparu gwersi wedi'u recordio ymlaen llaw yn agwedd bwysig ar weithredu'r ddarpariaeth ddarllen ar gyfer dysgwyr a oedd yn derbyn eu haddysg o gartref.

“Recordio fy hun yn darllen straeon a gofyn cwestiynau darllen a deall yr oedd y dysgwyr yn eu hateb. Llyfrau â ffotograffau i ddysgwyr eu darllen a chofnodi eu hunain yn darllen gan ddefnyddio Seesaw.”

PFfCA1/2 1

“Cafodd cardiau ffoneg eu hanfon adref. Anfonwyd cardiau fflach ar gyfer 100 o Restr Geiriau cyffredin at rai. Postiwyd fideo byw a chynadleddau fideo/tiwtorialau wedi'u recordio ymlaen llaw i rieni i'w hyfforddi sut i gyflwyno.”

[Cod - Ysgol ADY CA3/4]

3. Roedd recriwtio cymorth ac ymgysylltiad rhieni/gofalwyr yn ffactor pwysig wrth roi darpariaeth ddarllen ar waith i ddysgwyr a oedd yn derbyn eu haddysg gartref.

“Yna anfonodd y rhieni negeseuon neu anfon fideos o'r plant yn darllen. Gweithgareddau wythnosol yn targedu sgiliau llythrennau a sain yn cael eu postio ar y platfform hwn hefyd.”

PFfCA1/2 11

“Roedd angen i ni nodi sgiliau technoleg a oedd gan y rhieni. Roedd angen i ni weithio gyda hyn neu hybu sgiliau mewn rhai achosion gan gynnwys helpu rhieni i sefydlu h.y., apiau, mewngofnodi a chyfrineiriau. Roedd angen i ni weithio'n ofalus ar ddeunyddiau hyfforddi h.y., i sicrhau bod rhieni'n teimlo'n frwdfrydig/grymus/hyderus... felly ychydig o hyfforddiant addysgeg cynnil.”

[Cod - Ysgol ADY CA3/4]

4. Roedd y ddarpariaeth o adnoddau llythrennedd materol a oedd ar gael i rai dysgwyr yn ffactor pwysig wrth roi darpariaeth ddarllen ar waith ar gyfer dysgwyr a oedd yn derbyn eu haddysg gartref.

“Roedd angen i ni baratoi a chael deunyddiau materol wedi'u postio neu fynd â nhw iddynt.”

[Cod - Ysgol ADY CA3/4]

Nododd un ysgol ADY newid mewn ffocws yn ymwneud â sgiliau darllen uwch mewn ymateb i ddirywiad amlwg mewn sgiliau darllen a deall.

“Yn ystod y camau cyntaf, dim ond ymateb, goroesi a rhoi pwyslais mawr ar les oedden ni. Ond buan iawn y gwelsom, trwy waith siarad / monitro, fod sgiliau deall myfyrwyr yn mynd ar ei hôl hi. Fe wnaethom newid ein dull o fynd i'r afael â hyn yn ymwybodol trwy gynnwys tasg deall (weithiau dau) yn amserlen pob diwrnod. Fel ffordd ddiddorol o ddeall - darllen ac ateb / neu gwisiau fideo.”

[Cod - Ysgol ADY CA3/4]

Ffordd arall yr oedd athrawon o ysgolion ADY yn gallu parhau â'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr a oedd yn derbyn eu haddysg gartref oedd trwy greu adnoddau materol.


“Anfonwyd pecynnau adnoddau i gartrefi dysgwyr”.

ADY CA3/4 27

“Anfonwyd cardiau fflach briodol a chardiau ffoneg adref. Cynnwys rhieni mewn sesiynau tiwtorial ar-lein i'w haddysgu sut i ennyn diddordeb eu plant h.y. defnyddio ffoneg, cardiau fflach ar gyfer 100 o eiriau cyffredin, ffurfio llythrennau. Postiwyd fideos dysgu i rieni yn ymdrin â'r un nod.”

ADY CA3/4 49

6.3.3 Dysgwyr yn yr ysgol: Effaith ar y ddarpariaeth



Ffigur 3. Effaith ar ddarpariaeth darllen i ddysgwyr mewn ysgolion (ysgolion cynradd prif ffrwd).

Mae'r rhifau ar y chwith yn dynodi cyfran yr anghytundeb, mae'r rhifau ar y dde yn dynodi cyfran y cytundeb, mae'r niiferoedd yn y canol yn dynodi'r gyfran o beidio â chytuno nac anghytuno ar gyfer pob eitem. Nid yw'r ffigur yn cynnwys ymatebion 'amherthnasol'. Gweler y tablau yn Atodiad D ar gyfer Cyfrwng Hyder a Rhifau Sylfaenol.

Ysgolion cynradd prif ffrwd. Dywedodd athrawon fod y ddarpariaeth ddarllen nodweddiadol ar gyfer dysgwyr yn yr ysgol yn wahanol i'r ddarpariaeth ddarllen cyn y pandemig, yn ystod y cyfnodau clo cyntaf a'r ail (Cytuno 90% neu Gytuno'n Gryf; Cytuno 77% neu Gytuno'n Gryf, yn y drefn honno). Fodd bynnag, dim ond mwyafrif ymylol a adroddodd fod y ddarpariaeth yn yr ysgol yn wahanol i'r hyn yr oedd cyfoedion yn ei gael gartref (56% a 54% o Gytuno neu Gytuno'n Gryf, yn y drefn honno).

Dim ond 60% o athrawon a ddywedodd fod dysgwyr yn yr ysgol fel arfer yn gweithio gydag aelodau o staff a oedd yn eu hadnabod yn ystod y cyfnod clo cyntaf, ond cynyddodd hyn i 81% ar gyfer yr ail gyfnod clo.

Roedd p'un a oedd dysgwyr yn yr ysgol fel arfer yn gweithio gydag aelodau o staff a oedd yn ymwybodol o'u galluoedd darllen, ac a oedd dysgwyr a oedd yn cael darpariaeth wedi'i thargedu yn nodweddiadol yn gweithio gydag aelodau o staff a oedd yn brofiadol wrth gyflwyno'r ddarpariaeth, yn amrywio'n sylweddol ar draws ysgolion yn ystod y cyfnod clo cyntaf, gyda chyfrannau tebyg o gytuno ac anghytuno. Fodd bynnag, fe wnaeth y ddwy agwedd hyn ar y ddarpariaeth yn yr ysgol wella'n sylweddol yn ystod yr ail gyfnod clo (Cytuno 70% a 72% neu Gytuno'n Gryf, yn y drefn honno).


Mae'r newidiadau hyn yn y ddarpariaeth rhwng y cyfnod clo cyntaf a'r ail gyfnod clo yn cyd-fynd â'r cynnydd nodedig yn nifer y dysgwyr sy'n mynychu eu gwir safle ysgol pe bai ganddynt le mewn ysgol yn ystod yr ail gyfnod clo.

Ysgolion ADY. Dywedodd un athro Cyfnod Sylfaen/Cyfnod Allweddol 2 nad oedd ganddo unrhyw ddarllenwyr yn yr ysgol yn ystod y cyfnodau clo. Nododd eraill ar draws y Cyfnodau Allweddol fod y ddarpariaeth yn cael ei heffeithio yn yr un modd yn y cartref a'r ysgol, a bod maint y gwahaniaeth yn dibynnu ar ymgysylltiad rhieni. Mewn rhai achosion, adroddwyd bod y gwahaniaeth rhwng darpariaeth yn y cartref a'r ysgol yn llai amlwg yn ystod yr ail gyfnod clo.

6.4 Effaith y pandemig ar sgiliau darllen i ddysgwyr gartref ac yn yr ysgol

6.4.1 Ysgolion cynradd prif ffrwd (data arolwg meintiol): effaith ar sgiliau darllen


Adroddodd y mwyafrif o athrawon naill ai effaith negyddol gymedrol neu fawr y pandemig ar sgiliau darllen ar gyfer dysgwyr a oedd gartref a dysgwyr a oedd yn yr ysgol, fodd bynnag roedd cyfran yr athrawon a nododd effaith negyddol fawr yn fwy ar gyfer dysgwyr gartref nag yn yr ysgol (46% a 228% yn y drefn honno), gyda phatrwm tebyg ar gyfer effeithiau negyddol cymedrol (39% a 34% yn y drefn honno). (Gweler Ffigur 4). Ymhellach, adroddodd 8% o ysgolion nad oedd unrhyw effaith negyddol ar ddysgwyr yn yr ysgol, tra bod pob ysgol wedi adrodd o leiaf effaith negyddol fach ar gyfer dysgwyr gartref.



Ffigur 4. Effaith gyffredinol y pandemig ar sgiliau darllen dysgwyr gartref ac yn yr ysgol (ysgolion cynradd prif ffrwd).

Mae'r rhifau ar y chwith yn dynodi cyfran yr anghytundeb, mae'r rhifau ar y dde yn dynodi cyfran y cytundeb, mae'r niferoedd yn y canol yn dynodi'r gyfran o beidio â chytuno nac anghytuno ar gyfer pob eitem. Nid yw'r ffigur yn cynnwys ymatebion 'amherthnasol'. Gweler y tablau yn Atodiad D ar gyfer Cyfrwng Hyder a Rhifau Sylfaenol.


Ategir yr ymatebion hyn ymhellach gan ymatebion pan ofynnwyd iddynt gymharu effaith y pandemig yn uniongyrchol ar sgiliau darllen dysgwyr gartref â dysgwyr yn yr ysgol, gyda 48% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod sgiliau darllen dysgwyr gartref wedi'u heffeithio'n fwy negyddol. (Gweler Ffigur 5). Adroddwyd ffigurau tebyg mewn perthynas â hyder darllen, gyda 53% o athrawon yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod hyn yn cael ei effeithio'n fwy negyddol ar ddysgwyr gartref.



Ffigur 5. Effaith wahaniaethol ar sgiliau darllen a hyder dysgwyr gartref o gymharu â dysgwyr yn yr ysgol (ysgolion cynradd prif ffrwd).

Mae'r rhifau ar y chwith yn dynodi cyfran yr anghytundeb, mae'r rhifau ar y dde yn dynodi cyfran y cytundeb, mae'r niferoedd yn y canol yn dynodi'r gyfran o beidio â chytuno nac anghytuno ar gyfer pob eitem. Nid yw'r ffigur yn cynnwys ymatebion 'amherthnasol'. Gweler y tablau yn Atodiad D ar gyfer Cyfrwng Hyder a Rhifau Sylfaenol.

Pan ofynnwyd iddynt am yr effaith wahaniaethol ar sgiliau darllen dysgwyr ar wahanol gamau o gaffael darllen, roedd mwyafrif yr athrawon yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod darllenwyr a oedd yn dechrau neu'n cael trafferth, a oedd gartref yn ystod y pandemig, wedi cael eu heffeithio'n fwy negyddol na darllenwyr a oedd yn dechrau neu'n cael trafferth a oedd yn yr ysgol. (Gweler Ffigur 6). Yn yr un modd, roedd mwyafrif helaeth yr athrawon hefyd yn cytuno bod sgiliau darllen yr holl ddysgwyr (boed hynny gartref neu yn yr ysgol), a oedd eisoes wedi datblygu sgiliau datgodio da, yn cael eu heffeithio'n llai na darllenwyr newydd, ac yn anghytuno bod dysgwyr ym mlynnyddoedd olaf yr ysgol gynradd wedi cael eu heffeithio'n fwy negyddol na dysgwyr yn y blynnyddoedd is. O ran y cwestiwn a oedd mwy o effaith negyddol ar ddysgwyr a oedd yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd na dysgwyr eraill, dewisodd y mwyafrif o athrawon yr ymateb niwtral, gan nodi y gallai fod rhywfaint o effaith ar ddysgwyr yn gwneud y cyfnod pontio hwn na ellid ei gynnwys yn yr ymateb graddedig.




Ffigur 6. Cyfnod caffael ac effaith darllen (ysgolion cynradd prif ffrwd).

Mae'r rhifau ar y chwith yn dynodi cyfran yr anghytundeb, mae'r rhifau ar y dde yn dynodi cyfran y cytundeb, mae'r niiferoedd yn y canol yn dynodi'r gyfran o beidio â chytuno nac anghytuno ar gyfer pob eitem. Nid yw'r ffigur yn cynnwys ymatebion 'amherthnasol'. Gweler y tablau yn Atodiad D ar gyfer Cyfrwng Hyder a Rhifau Sylfaenol.

Roedd 87% o athrawon yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod sgiliau darllen Cymraeg dysgwyr o gartrefi di-Gymraeg, a oedd yn dysgu gartref, yn cael eu heffeithio'n fwy negyddol na'r rheiny o gartrefi Cymraeg eu hiaith. (Gweler Ffigur 7). Roedd yr un gyfran o athrawon yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod dysgwyr agored i niwed neu ddifreintiedig wedi cael eu heffeithio'n fwy negyddol na'u cyfoedion, ac roedd 72% yn

cytuno neu'n cytuno'n gryf bod dysgwyr y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt wedi cael eu heffeithio'n fwy negyddol na'u cyfoedion.



Ffigur 7. Nodweddion ac effaith dysgwyr (ysgolion cynradd prif ffrwd).

Mae'r rhifau ar y chwith yn dynodi cyfran yr anghytundeb, mae'r rhifau ar y dde yn dynodi cyfran y cytundeb, mae'r niferoedd yn y canol yn dynodi'r gyfran o beidio â chytuno nac anghytuno ar gyfer pob eitem. Nid yw'r ffigur yn cynnwys ymatebion 'amherthnasol'. Gweler y tablau yn Atodiad D ar gyfer Cyfrwng Hyder a Rhifau Sylfaenol.

6.4.2 Ysgolion cynradd prif ffrwd ac ADY (data arolwg ansoddol): effaith ar sgiliau darllen

"...mae'n rhaid i ni brynu llawer o lyfrau i wneud y llyfrgell hon sydd ei hangen arnoch chi. Felly efallai mwy o lyfrau mewn ysgolion felly mae gennym ni fwy o lyfrau gan ddarllenwyr cynnar hyd at, wel, ar ôl Blwyddyn 6 a dweud y gwir oherwydd, fel y dywedais, rydyn ni mewn ardal braf, mae gennym ni rai plant sy'n darllen yn 16 oed. Felly mae darllen llyfrau, er enghraifft, yn stopio ar lefel Blwyddyn 6. Wel, mae gennym ni gymaint o blant uwch ei ben, felly mae'n golygu cael ystod eang o -- dim ond mwy o arian ar gyfer llyfrau."

DW (Cyfnod Sylfaen)

Thema 4.2: Hyfforddiant

Nododd athrawon yr angen am hyfforddiant ym maes dysgu ar-lein; teimlent fod addysg yn newid ac efallai y byddent yn addysgu trwy ddull mwy cyfunol. Soniodd athrawon hefyd am anghenion hyfforddi ychwanegol mewn perthynas ag iechyd meddwl a chefnogi lles emosiynol eu dysgwyr ar ôl dychwelyd i'r ysgol.

"...bydd pob aelod o staff yn cyfaddef eu bod wedi uwchsgilio eu sgiliau TGCh yn ystod y cyfnodau clo, bod yna staff o hyd sy'n teimlo nad ydyn nhw'n gymwys."

SC (CA2)

Nododd pedwar athro nad oedd gan staff y sgiliau digonol i addysgu hanfodion darllen, ac mae angen i hyn fod yn ffocws i'r system wrth symud ymlaen.

"Felly mewn gwirionedd mae'n hyfforddi athrawon i ddysgu sut i ddarllen. Ac nid dim ond cael y plant i ddarllen rhan ohoni yw hyn. Sut ydych chi mewn gwirionedd yn addysgu'r sgiliau casglu a diddwythol hynny, nad oes ganddyn nhw, wyddoch chi, yn ogystal â datblygu eu sgiliau ffonig?"

WL (CA2)

"Ac efallai staff fel fi. Wyddoch chi, dw i'n dysgu Blwyddyn 6. Ydw, rydw i wedi gwneud y Dosbarth Derbyn, ond gyda dealltwriaeth o sut mae ffoneg yn cael ei addysgu trwy'r ysgol. Dwi'n meddwl y byddai hynny'n helpu fel athro hefyd."

Bu athrawon ysgol ADY hefyd yn trafod yr angen i ddatblygu eu sgiliau eu hunain er mwyn gallu darparu addysg i'r dysgwyr. Defnyddiwyd cydweithio, rhannu adnoddau ac addysgu tîm, ochr yn ochr â dysgu i ddarparu addysg mewn ffordd wahanol.

“Felly roedd yn broses ddysgu enfawr, nid yn unig i ni, i mi, ond hefyd i'r disgyblion, ac i'w rhieni.”

BD (Cyfnod Sylfaen)

“...ond y tîm cynorthwywyr addysgu hefyd. Dim ond gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw ddyfais, roedden nhw'n gwybod sut i fynd ar wahanol bethau.”

FG (CA2 & CA3)

Thema 4.3: Amser i ailosod ac ail-raddnodi

Trafododd tri athro fod angen amser i athrawon helpu dysgwyr i ymgartrefu yn ôl i addysg.

“Pe baen nhw wedi gohirio gweithredu [Cwricwlwm Cymraeg newydd i Gymru] am flwyddyn neu ddwy, byddai hynny wir wedi caniatáu i ni ganolbwyntio ar gael y plant yn ôl i normal.”

TM (CA2)

“Wyddoch chi, dwi'n meddwl bod un ohonyn nhw'n mynd i fod yn ddealltwriaeth nad ydyn ni lle dylen ni fod, ac mae'n mynd i gymryd amser i gyrraedd yn ôl i'r fan honno. Nid yw'n achos eu bod yn ôl yn yr ysgol; mae hynny'n iawn felly.”

SC (CA2)

“Rydyn ni angen amser i Gwricwlwm i Gymru gael ei wreiddio, mewn ffordd, oherwydd dyw e ddim yn mynd i ddigwydd dros nos. Erbyn mis Medi, mae fel troi switsh; dyna ni, y Cwricwlwm newydd i Gymru. Ac wrth edrych yn ôl, oherwydd y pandemig, mae'r ysgolion wedi bod trwy ddigon. A gawn ni jest stopio am funud a gadael pethau am flwyddyn arall er mwyn i bobl gael well persbectif a safonau gwell i blant ar yr heriau llythrennedd a rhifedd ac ar iechyd meddwl plant. Achos mewn gwirionedd, mae ein man cychwyn nawr yn ôl.”

JK (Cyfnod Sylfaen)

Soniodd pob un o'r athrawon am ddysgwyr yn dychwelyd i'r ysgol heb sgiliau cymdeithasol. Dywedodd dau athro hefyd fod y diffyg cymdeithasoli yn ystod y cyfnodau clo yn golygu nad oedd gan ddysgwyr a oedd yn dychwelyd i'r ysgol y sgiliau i allu chwarae gyda'u cyfoedion.

Trafododd athrawon yr angen am amser i ganolbwyntio ar ganiatáu amser i ddysgwyr ryngweithio'n gymdeithasol.

“Doedd ganddyn nhw ddim y sgiliau cymdeithasoli hynny y bydden nhw wedi’u cael, ac roedden nhw jyst yn colli cymaint o’r elfen o hwyl wrth ddysgu.”

TM (CA2)

“...mae plant wedi colli eu sgiliau cymdeithasol. Dwi'n gweld hynny'n ddyddiol. Dydyn nhw ddim yn gwybod sut i gymdeithasu â'i gilydd. Dydyn nhw ddim yn gwybod sut i chwarae. Felly, rydyn ni'n treulio llawer o amser ar yr iard, wyddoch chi, staff yn chwarae gemau gyda nhw.”

JK (Cyfnod Sylfaen)

“Pan ddechreuon nhw ym Mlwyddyn 3 ym mis Medi, roedd athrawon Blwyddyn 3 fel, "Mae fel cael Dosbarth Derbyn," 'achos nad oes ganddyn nhw'r ochr gymdeithasol honno i bethau, maen nhw wedi anghofio sut i rannu a sut i eistedd mewn cadair heb -- hyn i gyd.”

SC (CA2)

Roedd athrawon yn pryderu am yr effeithiau ehangach ar ddysgwyr; roedd pob un yn trafod sgiliau ehangach a oedd yn ddiffygiol wrth i'r dysgwyr ddychwelyd i'r ysgol. Y mwyaf cyffredin a ddyfynnwyd oedd diffyg annibyniaeth dysgwyr, roedd angen mwy o gymorth ar ddysgwyr i gwblhau tasgau.

“Dim ond cael yr annibyniaeth honno yn ôl ynddyn nhw, roedd, wyddoch chi, y dosbarth roeddwn i'n ei ddysgu cyn COVID yn dod yn annibynnol iawn, iawn. Ac yn ystod y ddwy flynedd hynny, maen nhw wedi colli'r elfen honno o wneud pethau eu hunain, meddwl drostynt eu hunain. Mae athrawon wedi bod yn siarad am blant yn dweud wrthyn nhw pan maen nhw'n cyrraedd diwedd y dudalen, a dydyn nhw ddim yn gwybod beth i'w wneud. Mae fel, "Rydych chi'n troi'r dudalen, ac rydych chi'n parhau i ysgrifennu." A phethau syml fel, "Nid yw fy meiro'n gweithio." "Wel, ewch i flaen y dosbarth a chael beiro arall." Ond doedd y pethau hynny ddim yn dod yn naturiol iddyn nhw oherwydd maen nhw wedi bod gartref cyhyd ac roedd eu rhieni fwy neu lai yn gwneud popeth iddyn nhw, doedden nhw ddim yn teimlo'r angen i feddwl drostynt eu hunain na gwneud pethau drostynt eu hunain. Felly dyna'r prif beth wnaethon ni ddarganfod yn ein hysgol. Dim ond cael y lefel honno o annibyniaeth i ddweud wrthyn nhw am fod ynddyn nhw eu hunain.”

TM (CA2)

Thema 4.4: Adnoddau sy'n briodol i'r oedran

Trafododd pob un o'r tri athro yn yr ysgolion ADY yr angen i gael mwy o adnoddau, a mynediad at ddyfeisiadau digidol. Soniodd pob un o'r tri athro'n helaeth am yr angen am adnoddau penodol sy'n briodol i oedran eu dysgwyr. Roedd pob un yn trafod nad oedd dysgwyr hŷn yn gallu cyrchu deunydd sydd o ddiddordeb iddynt.

“A dwi'n meddwl mai dyna'r broblem bod cymaint o'r ffoneg, y cyfarwyddyd ffoneg sylfaenol sydd ar gael ar gyfrifiadur mewn gwirionedd wedi'i anelu at eich plentyn pump a chwech oed ar gyfartaledd.”

BD (Cyfnod Sylfaen)

“Yr un peth gyda rhai o'r Reading Eggs. Tua'r diwedd, mae'n mynd yn rhy gymhleth, felly mae angen i ni wneud ychydig mwy.”

UL (Cyfnod Sylfaen)

Thema 4.5: Newidiadau polisi a ffocws ar ddarllen.

Trafododd dau athro nad oedd darllen a dulliau o addysgu darllen yn ffocws i haen ganol ac uchaf y system addysg. Bu athrawon yn trafod yr angen am arweiniad ac yn trafod cael strategaeth glir i addysgu darllen i ddysgwyr.

“A rhaglenni ffoneg.... Felly, hoffwn i Lywodraeth Cymru hefyd gael un rhaglen ffoneg a fyddai'n gyson. Ni fyddai ots eich bod mewn ardal gyda llwyth o brydau ysgol am ddim er mwyn i chi allu fforddio'r rhaglen orau. Byddai'n braf cael rhaglen ffoneg gyson ar gyfer Cymru lle maen nhw i gyd yn cael yr un peth wedyn, ynte.”

DW (Cyfnod Sylfaen)

Trafododd yr athrawon fod angen ymdrech fwy cynhwysfawr i gefnogi dysgwyr ADY i ddatblygu sgiliau darllen, gyda ffocws polisi ar gefnogi darllen.

“Hynny yw, dwi'n hoffi'r cwricwlwm newydd, ond un o'r problemau yw, pan ddywedant y dylid rhoi sylw cyfartal i bob un o'r chwe maes, weithiau byddwn yn dadlau bod dosbarth fel hwn gyda disgyblion fel hyn, mae'n llawer gwell canolbwyntio ar y llythrennedd a'r rhifedd fwyaf yn hytrach na -- o, efallai'n amlwg, iechyd a lles, ond pethau fel y dyniaethau neu hyd yn oed gwyddoniaeth a thechnoleg. Wyddoch chi, os gallwch chi ddarllen, y gallwch chi ddarganfod mwy am hynny pan fyddwch chi'n hŷn. Ond os na allwch chi ddarllen.... Os yw plant yn gallu darllen, yna mae'r cwricwlwm cyfan yn agored iddynt. Os nad ydyn nhw'n gallu darllen... wn i ddim a fyddai modd ysgrifennu hynny i'r cwricwlwm newydd rywsut. Beth fydden nhw'n ei wneud fel arfer ym Mlwyddyn 1 a 2 yn yr ysgol gynradd. Mae angen iddo fod yn strwythuredig iawn. Ac rwy'n meddwl bod yn rhaid i hynny gael ei ysgrifennu o fewn y cwricwlwm newydd. Os nad ydyn nhw wedi ei gyrraedd erbyn Blwyddyn 2, yna mae angen caniatáu ysgolion -- bron y dylid annog ysgolion i roi mwy o amser i'r ardal honno er mwyn i ddisgyblion allu dal i fyny. Oherwydd po hiraf y byddwch chi'n ei adael -- wyddoch chi, mae yna rai pobl ifanc yn y dosbarth hwn y byddwn ni -- y rhan fwyaf o'r dosbarth hwn yn dod i mewn i'r dosbarth hwn ar ôl ysgol gynradd, a hynny oherwydd eu bod nhw wedi mynd ar ei hôl hi. Ond mae hi bron yn rhy hwyr wedyn, ynte. Ydych chi'n gwybod beth dwi'n feddwl? Mae'n cymryd llawer hirach i ddal i fyny, dwi'n meddwl. Ond os nad ydyn nhw'n cyrraedd y targedau hynny ym Mlwyddyn 2,

yna mae angen canolbwyntio am flwyddyn gyfan bron ym Mlwyddyn 3 neu pa bynnag flwyddyn y mae angen iddi fod er mwyn eu cael yn ôl ar y trywydd iawn; fel arall, maen nhw am byth yn dal i fyny. Ac yna maen nhw am byth yn dal i fyny yn y cwricwlwm cyfan 'achos na allant gael mynediad iddo i'r un graddau. Dyna'r un peth y mae angen iddyn nhw ei gael yn iawn."

BD (CA3 & CA4)

8. Casgliad a chyfyngiadau

8.1 Crynodeb o'r canfyddiadau

C1. Sut mae addysgu darllen mewn ysgolion cynradd ac ADY yng Nghymru wedi cael ei effeithio gan y pandemig?

Effaith ar ddarpariaeth darllen

Mae'r astudiaeth hon yn dangos bod y pandemig wedi tarfu'n sylweddol ar addysgu darllen mewn ysgolion cynradd ac ADY yng Nghymru.

Yn fwyaf nodedig, cafodd darpariaeth ffoneg gyffredinol ei chwtdogi ar gyfer dysgwyr gartref, gyda sesiynau ffoneg yn llai aml a llai o hyd, yn enwedig yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Effeithiwyd yn negyddol ar ddarpariaeth wedi'i thargedu a gwahaniaethu yn y ddarpariaeth ddarllen ar gyfer dysgwyr gartref, yn enwedig ar gyfer darllenwyr iau, teuluoedd anos eu cyrraedd, a dysgwyr ag ADY. Effeithiwyd yn fwy negyddol ar ddarpariaeth darllen Cymraeg na darpariaeth darllen Saesneg, oherwydd diffyg adnoddau Cymraeg i ysgolion eu defnyddio, a diffyg hyder rhieni yn y Gymraeg.

Mae'n amlwg hefyd bod dysgwyr sy'n dal i fynychu ysgolion (neu safleoedd hwb) yn ystod y cyfnodau clo hefyd wedi profi effeithiau negyddol. Yn ystod y cyfnod clo cyntaf yn arbennig, nid oedd dysgwyr a oedd yn mynychu'r ysgol yn aml yn cael eu haddysgu gan staff a oedd yn ymwybodol o'u gallu i ddarllen, ac yn aml yn cael darpariaeth wedi'i thargedu gan aelod o staff nad oedd yn brofiadol wrth gyflwyno'r ddarpariaeth.

Roedd ysgolion ADY yn wynebu heriau tebyg, a rhai heriau mwy cymhleth, gan adlewyrchu proffil y dysgwyr y maent yn eu haddysgu. Yn benodol, dywedwyd bod dysgu ar-lein i ddysgwyr mewn ysgolion ADY yn heriol, ac yn amhosibl i rai dysgwyr - dywedodd un athro ysgol ADY fod hyn oherwydd diffyg dealltwriaeth o'r rheswm pam nad oeddynt yn yr ysgol, gan arwain at drallod pan oedd disgwyl iddynt ymgysylltu ag athrawon a staff cymorth drwy dechnoleg. Efallai bod yr heriau hyn yn adlewyrchu'r methiannau o ran darparu canllawiau digonol i ysgolion gefnogi dysgwyr ADY yn effeithiol (Sibieta & Cottell, 2021).

Ymgysylltu â darpariaeth darllen

Nodwyd sawl rhwystr i ymgysylltu â darpariaeth ddarllen yn ystod y cyfnodau clo yn yr arolygon a'r cyfweiliadau. Er i Gymru gael ei chanmol am eu hymateb i ddarparu mynediad at dechnoleg ar gyfer dysgu gartref (Sibieta & Cottell, 2020), roedd llawer o athrawon yn dal i ystyried bod mynediad at adnoddau yn rhwystr. Nodwyd bod diffyg cymorth iaith Gymraeg gartref yn rhwystr sylweddol i ymgysylltu â darpariaeth darllen Cymraeg i lawer o ddysgwyr, fel yr adroddwyd hefyd gan Water-Davies et al., (2021). Llwyddodd rhai ysgolion i gefnogi rhieni i ddyfalbarhau â hyn, ond cymerodd eraill y dull o gael gwared ar unrhyw ddisgwyliadau o ymgysylltu â darpariaeth darllen Cymraeg er mwyn osgoi ymddieithrio ehangach.

Roedd materion mwy cyffredinol hefyd yn ymwneud â chymhelliant ac ymgysylltiad dysgwyr, gydag athrawon yn aml yn adrodd am ddiffyg diddordeb gan ddysgwyr mewn parhau â'u dysgu gartref, ac yn aml nid oedd rhieni'n gallu cefnogi datblygiad darllen eu plentyn yn effeithiol er gwaethaf cefnogaeth gan yr ysgol.

Soniodd ysgolion ADY am heriau tebyg, ond buont hefyd yn trafod heriau blaenoriaethau gwrthdaro sylweddol ar gyfer teuluoedd dysgwyr mewn ysgolion ADY, yn enwedig ar gyfer dysgwyr ag anghenion mwy cymhleth.

C2. Sut mae'r pandemig wedi effeithio ar gynnydd darllen a chyrhaeddiad dysgwyr mewn ysgolion cynradd ac ADY yng Nghymru?

Mae absenoldeb amlwg unrhyw ddata i ganiatáu ar gyfer tystiolaeth gadarn o'r effaith ar gynnydd darllen a chyrhaeddiad dysgwyr mewn ysgolion cynradd ac ADY yng Nghymru o ganlyniad i'r pandemig. Fodd bynnag, adroddodd athrawon ysgol prif ffrwd ac ADY am effaith negyddol sylweddol y pandemig ar sgiliau darllen, a oedd yn waeth i ddysgwyr gartref na'r rheini yn yr ysgol. Dywedodd un ysgol ADY fod yr oedran darllen cyfartalog ar gyfer y rhai oedd â data ar gael wedi gostwng 27 mis ar ôl y cyfnod clo cyntaf. Thema gyffredin ar gyfer ysgolion prif ffrwd oedd y mater o lai o eirfa Gymraeg a dealltwriaeth gyffredinol o'r iaith.

Roedd graddau'r amhariad parhaus a adroddwyd i'r ddarpariaeth ddarllen yn amrywio, ond nododd y mwyafrif o athrawon prif ffrwd nad oedd amhariad parhaus helaeth yn ystod blwyddyn ysgol 2021-22. At hynny, adroddwyd yn gyffredinol bod hyder ac ymgysylltiad dysgwyr wedi gwella, a'u bod wedi gallu dechrau unioni'r effaith ar sgiliau darllen ers dychwelyd i'r ysgol. Fodd bynnag, adroddodd 34% o ysgolion cynradd bod tarfu parhaus ar y ddarpariaeth ddarllen, gan gynnwys y cyfyngiadau ar amgylcheddau gwaith (fel 'swigod'), a'r angen i fynd i'r afael â pharodrwydd mwy sylfaenol i ddysgu sgiliau. Soniodd ysgolion ADY am heriau parhaus tebyg, yn ogystal ag amlygu'r angen i aildysgu sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu i lawer o ddysgwyr.

C3. Sut y gellir defnyddio tystiolaeth ymchwil gyfredol, mewnwelediadau ac arloesiadau o ysgolion cynradd ac ADY yng Nghymru i sicrhau y gellir cefnogi pob dysgwr yn effeithiol i wella eu sgiliau darllen wrth i ni weithio i wella ar ôl y pandemig?

Parhaodd llawer o ysgolion i ddefnyddio apiau a rhaglenni ar-lein a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig i gynorthwyo hyfedredd darllen a chyfathrebu â rhieni.

Ar hyn o bryd mae ysgolion yn defnyddio amrywiaeth eang o ymyriadau darllen, strategaethau ac adnoddau i gefnogi datblygiad darllen eu dysgwyr. Fodd bynnag, thema gyffredin mewn ysgolion cynradd ac ADY oedd yr anfodlonrwydd a'r pryder yn ymwneud â'r diffyg arweiniad a ddarparwyd gan y llywodraeth ar gyfer addysgu darllen, dulliau effeithiol a chymorth i sicrhau hyfforddiant a darpariaeth ddigonol i'w dysgwyr. Mae angen rhagor o ymchwil i ddeall yn well y ddarpariaeth a'r penderfyniadau sy'n ymwneud â'r defnydd o ddulliau a rhaglenni ar gyfer addysgu darllen, ac i gefnogi ysgolion i werthuso effeithiau'r ymyriadau, y strategaethau a'r adnoddau y maent yn eu defnyddio.

8.2 Cyfyngiadau

8.2.1 Cyfraddau ymateb i'r arolwg.

Roedd y cyfraddau ymateb i'r arolwg yn is na'r disgwyl, er gwaethaf yr ymdrech sylweddol wrth gynllunio ar gyfer recriwtio ysgolion i'r prosiect, a'r adnoddau a roddwyd i wneud gwaith dilynol yn uniongyrchol ag ysgolion a wahoddwyd i gymryd

rhan. Mae'r fethodoleg samplu a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon yn cynyddu cadernid y canfyddiadau er bod y cyfraddau ymateb yn is na'r disgwyl, ac mae cynnwys cyfweiliadau manwl ag athrawon ar draws ysgolion cynradd ac ADY wedi darparu mewnwediad a dealltwriaeth ychwanegol sylweddol o sut yr effeithiodd y pandemig ar ddarpariaeth a chanlyniadau llythrennedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y cyfraddau ymateb yn lleihau dilysrwydd y casgliad am y boblogaeth yn yr astudiaeth gyfredol, yn enwedig yn achos ysgolion cyfrwng Cymraeg, lle mai ychydig iawn o'r boblogaeth sampl a gymerodd ran.

Mae nifer o resymau am hyn, gan gynnwys ffactorau cyd-destunol ehangach, a ffactorau sy'n benodol i'r dull a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon. Mae'r heriau parhaus a chyffredin sy'n ymwneud â llwyth gwaith athrawon yn debygol iawn o fod wedi chwarae rhan sylweddol yn y gyfradd ymateb isel i'r arolwg hwn. Arweiniodd union natur yr astudiaeth hon at geisio recriwtio athrawon i astudiaeth ar adeg o heriau parhaus penodol wrth i ni geisio dychwelyd at ein darpariaeth addysgol cynbandemig. Amlygodd arolwg diweddar o bron i 18,000 o athrawon a staff cymorth yng Nghymru a Lloegr gynnydd sylweddol yn y gofynion o ran llwyth gwaith o gymharu â'r rheini cyn y pandemig, gan gynnwys lefelau absenoldeb staff sy'n gwaethygu, niferoedd staff cymorth, staff arbenigol (h.y., llai o ddarpariaeth ADY), mwy o rolau ychwanegol, a mwy o swyddi staff addysgu a chymorth gwag (Undeb Addysg Genedlaethol, 2023). Mae angen ystyried y materion hyn, ynghyd â'r gostyngiad parhaus mewn cyfraddau ymateb mewn arolygon poblogaeth gyffredinol (Luiten, Hox, & de Leeuw, 2020), ar fyrder ar gyfer ymchwil yn y dyfodol. Oni bai bod amodau gwaith a phroblemau llwyth gwaith athrawon yn gwella, ni ddylem ddisgwyl gwelliant mewn cyfraddau ymateb ar gyfer arolygon o'r fath heb fwy o adnoddau (e.e., mwy o gymhellion).

Gallai'r dull recriwtio o wahodd ysgolion i gymryd rhan mewn astudiaethau arolwg lluosog ar yr un pryd fod wedi cael effaith negyddol ar y cyfraddau ymateb yn yr astudiaeth hon. Er ei fod wedi'i gynllunio'n ofalus i sicrhau na ofynnwyd i athrawon unigol ymateb i fwy nag un arolwg, gallai'r baich (canfyddedig neu fel arall) trefniadaeth a'r ffaith nad oedd cymaint o eglurder ynghylch yr hyn a ofynnir iddynt fod wedi dylanwadu ar eu parodrwydd i gymryd rhan. Ymhellach, pe bai gan ysgol ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn un prosiect ond nid y 2 neu 3 phrosiect ychwanegol, efallai y byddent wedi bod yn fwy tebygol o wrthod cymryd rhan mewn unrhyw un ohonynt. Dylid ystyried y dull hwn ymhellach mewn astudiaethau yn y dyfodol, a'i gysoni'n dda â chymhellion a defnydd effeithiol o rwydweithiau ac unigolion hysbys.

Gallai cynllun yr arolygon eu hunain hefyd fod wedi chwarae rhan yn y gyfradd ymateb isel. Yn ystod y broses o ddatblygu a threialu'r arolwg, penderfynwyd rhannu'r arolwg yn dair adran i'w cwblhau gan wahanol aelodau o staff ym mhob ysgol a gymerodd ran, i ganiatáu ar gyfer staff sydd yn y sefyllfa orau i ateb cwestiynau sy'n ymwneud â'r ysgol gyfan yn erbyn grwpiau penodol o ddysgwyr, a lleihau'r baich o ymateb i arolwg hir gan un aelod o staff. Fodd bynnag, ni chwblhaodd y rhan fwyaf o'r ysgolion a gymerodd ran bob un o'r tair adran, yn enwedig yn achos ysgolion ADY lle mai ychydig iawn o ddata defnyddiol a gasglwyd trwy ddata'r arolwg. Dylai astudiaethau yn y dyfodol ystyried lleihau hyd yr arolwg ymhellach, gan wahodd un aelod o staff i gwblhau'r arolwg, ond darparu rhywfaint o'r

wybodaeth ddemograffig a lefel ysgol cyn yr arolwg i'w galluogi i gasglu'r wybodaeth angenrheidiol gan gydweithwyr yn ôl yr angen.

8.2.2 Diffyg deilliannau data penodol i Gymru

Mae'r diffyg data sydd ar gael ar ddeilliannau darllen yng Nghymru yn ystod y pandemig a thu hwnt wedi cyfyngu ar ba mor dda y gallwn ddeall effaith y pandemig ar ddatblygiad darllen dysgwyr ledled Cymru, a bydd yn effeithio ymhellach ar ba mor dda y gallwn fonitro'r effaith barhaus a'r adferiad dros y blynyddoedd nesaf. Mae athrawon wedi darparu mewnwelediadau defnyddiol yn yr astudiaeth hon ynghylch effaith ganfyddedig y pandemig, ac i ba raddau y maent wedi gallu gwella rhai o'r anawsterau wedi hynny. Fodd bynnag, bydd y ddibyniaeth ar ddata hunan-adrodd a chanfyddiadau yn amharu ar ein dealltwriaeth a'n gwaith parhaus o fonitro cynnydd. Mae hyn yn cyflwyno heriau sylweddol mewn perthynas ag arfarnu effeithiau polisïau, mentrau, a rhaglenni ariannu perthnasol yn y maes hwn, gan gyfyngu ar y graddau y gellir gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth ynghylch dulliau effeithiol o gefnogi datblygiad darllen ein dysgwyr.

9. Argymhellion

Daw llawer o'r argymhellion o'r adroddiad hwn yn uniongyrchol gan athrawon sy'n cymryd rhan mewn ysgolion cynradd prif ffrwd ac ADY ledled Cymru. Gwneir argymhellion pellach yn dilyn ein synthesis o'r ystod eang o fewnwelediadau a ddarparwyd gan y data a gasglwyd yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys y rheini sy'n benodol i'r pandemig a'r adferiad yn dilyn y pandemig, ac argymhellion ehangach ar gyfer polisi, ymarfer ac ymchwil cysylltiedig. Gwneir pedwar ar ddeg o argymhellion.

9.1 Cymhwyso'r hyn a ddysgwyd i gyfnodau clo posibl yn y dyfodol.

1. Pe bai ysgolion yn cau, neu os daw dysgu gartref yn amlach i unrhyw grwpiau o ddysgwyr eto, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod darpariaeth glir, wedi'i chynllunio, ar waith, sy'n caniatáu i'r ddarpariaeth ddarllen orau bosibl barhau ar gyfer dysgwyr sydd gartref.
2. Fel y cyfryw, mae angen ymchwil pellach i goladu a gwerthuso arferion a allai fod yn effeithiol ar gyfer darparu cymorth i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr i gael mynediad at y llwyfannau technoleg ac addysgol angenrheidiol. Rhaid i hyn gynnwys y teuluoedd a'r dysgwyr hynny sy'n anodd eu cyrraedd, a'r rhai ag ADY, sydd ag angen penodol i ystyried yn ofalus ffyrdd effeithiol o gyflwyno darpariaeth o'r fath ar gyfer dysgwyr ag anghenion mwy cymhleth.
3. Yn yr un modd, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod systemau ar waith i ddarparu mynediad at y dechnoleg angenrheidiol i **bob** dysgwr sydd ei angen.

9.2 Cefnogi datblygiad darllen dysgwyr yr effeithir yn negyddol arnynt gan y pandemig.

4. Ar gyfer dysgwyr y mae'r pandemig wedi effeithio'n negyddol ar eu sgiliau darllen, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid wedi'i dargedu a mentrau i unioni hyn ymhellach.
5. Dylai dysgwyr sydd bellach yng Nghyfnod Allweddol 2 Uchaf a Chyfnod Allweddol 3 cynnar gael mynediad at ymyriad wedi'i dargedu, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu eu sgiliau datgodio yn ôl yr angen. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar ysgolion i gynyddu'r capasiti staffio i gyflawni'r gwaith ymyrryd hwn ar raddfa fwy nag sy'n arferol ar gyfer y grwpiau blwyddyn hyn, yn ogystal â hyfforddiant ychwanegol i athrawon dysgwyr yn y grwpiau blwyddyn hyn i'w galluogi i gefnogi eu datblygiad darllen yn fwy effeithiol ar draws y cwricwlwm.
6. Oherwydd yr heriau niferus yr adroddir eu bod yn eu hwynebu wrth ddychwelyd i'r ysgol (e.e., diffygion sgiliau cymdeithasol a dysgu), mae dysgwyr ar draws y blynyddoedd cynradd yn debygol o fod angen cymorth ychwanegol i sicrhau eu bod yn datblygu sgiliau darllen rhugl yn yr ysgol gynradd.

7. Mae dysgwyr difreintiedig ac agored i niwed a dysgwyr y mae Saesneg yn iaith Ychwanegol iddynt yn debygol o fod angen lefelau uwch fyth o gymorth ychwanegol i sicrhau eu bod yn datblygu sgiliau darllen rhugl.

8. Bydd angen cymorth pellach ar ddysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg i sicrhau y gellir unioni'r effeithiau negyddol a adroddwyd mewn perthynas â'u darllen Cymraeg, eu geirfa a'u dealltwriaeth o'r iaith. Mae gan y mater hwn arwyddocâd arbennig i agenda Cymraeg 2050 a chanlyniadau cysylltiedig y cyfrifiad diweddar.

9.3 Dyfodol darpariaeth darllen i ddysgwyr yng Nghymru: cefnogi datblygiad darllen dysgwyr ledled Cymru yn effeithiol.

9. Mae angen ymchwilio ymhellach i'r ffordd y caiff darllen ei addysgu ledled Cymru, drwy wneud rhagor o ymchwil i archwilio a gwerthuso'r dystiolaeth ar gyfer yr ystod o ddulliau a ddefnyddir.

10. Mae angen nodi meysydd o arfer addawol a'u gwerthuso er mwyn helpu i lywio arfer ledled Cymru.

11. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dystiolaeth sy'n llywio'r gwaith o roi polisïau ac arferion gwahanol iawn ar waith yng Nghymru, o gymharu â'r rhai yn Lloegr, er mwyn sicrhau bod ein dysgwyr yn cael y cymorth gorau posibl gyda'u datblygiad darllen.

13. I gefnogi argymhellion 4-8, ac argymhelliad 12, dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o'r ddarpariaeth hyfforddiant mewn perthynas â chyfarwyddyd darllen ar gyfer athrawon presennol ac athrawon dan hyfforddiant, gan gynnwys y cynnig dysgu proffesiynol a'r ddarpariaeth Addysg Gychwynol Athrawon yn y maes hwn.

14. Mae angen gwell mynediad at adnoddau a rhaglenni darllen sy'n briodol i'w hoedran ar gyfer dysgwyr y gallai fod angen iddynt gael mynediad at addysgu sgiliau darllen cynnar y tu hwnt i'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 isaf.

15. Mae angen datblygu adnoddau a rhaglenni darllen Cymraeg ar gyfer pob dysgwr ymhellach, a gwerthusiadau o raglenni o'r fath i sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol posibl.

Cyfeiriadau

- Acocella, I. (2012). The focus groups in social research: advantages and disadvantages. *Quality & Quantity*, 46(4), 1125-1136.
DOI: <https://doi.org/10.1007/s11135-011-9600-4>
- Alsubaie, M. A. (2022). Distance education and the social literacy of elementary school students during the COVID-19 pandemic. *Heliyon*, 8(7), e09811.
DOI: <https://doi.org/10.1016/j.heliyon.2022.e09811>
- Andrews, L. (2011). Teaching makes a difference. Institute of Welsh Affairs / Sefydliad Materion Cymreig, Chwefror 2. Ar gael yn:
<https://www.iwa.wales/agenda/2011/02/teaching-makes-a-difference/>
[Cyrchwyd 15 Gorffennaf 2022]
- Banerjee, T., Khan, A. & Kesavan, P. (2021). Impact of lockdown and school closure on children in special schools: a single-centre survey. *BMJ paediatrics open*, 5(1). DOI: <http://dx.doi.org/10.1136/bmjpo-2020-000981>
- Bates, J., Finlay, J. & O'Connor Bones, U. (2021). "Education cannot cease": the experiences of parents of primary age children (age 4-11) in Northern Ireland during school closures due to COVID-19. *Educational Review*, 1-23.
DOI: <https://doi.org/10.1080/00131911.2021.1974821>
- Beaven, A., Comas-Quinn, A. & Hinton, N. (2022). Systematic Synthetic Phonics: Case Studies from Sounds-Write Practitioners. *Research-publishing.net*. Ar gael yn: <https://files.eric.ed.gov/fulltext/ED619956.pdf>
- Blainey, K. & Hannay, T. (2021). The impact of school closures on autumn 2020 attainment. *RS Assessment from Hodder Education*. Ar gael yn:
https://www.risingstars-uk.com/getmedia/8181effc-58ef-48f7-9f78-94186578efa5/The_Impact_Of_School_Closures_May_2021 [Cyrchwyd 24 Mai 2022]
- Blewitt, P., Rump, K.M., Shealy, S.E. & Cook, S.A. (2009). Shared book reading: When and how questions affect young children's word learning. *Journal of Educational Psychology*, 101(2), 294–304.
DOI: <https://doi.org/10.1037/a0013844>
- Bree R. T. & Gallagher G. (2016). Using Microsoft Excel to code and thematically analyse qualitative data: a simple, cost-effective approach. *AISHE-J: The All Ireland Journal of Teaching and Learning in Higher Education*, 8(2) Ar gael

- yn: <http://ojs.aishe.org/index.php/aishe-j/article/view/281/467> [Cyrchwyd 30 Mehefin 2022]
- Brittle, B. (2020). Coping strategies and burnout in staff working with students with special educational needs and disabilities. *Teaching and Teacher Education*, 87, 102937. DOI: <https://doi.org/10.1016/j.tate.2019.102937>
- Coe, R., Weidmann, B., Coleman, R. & Kay, J. (2020). Impact of school closures on the attainment gap: rapid evidence assessment. June 2020. Ar gael yn: [https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/EEF_\(2020\)_-_Impact_of_School_Closures_on_the_Attainment_Gap.pdf](https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/EEF_(2020)_-_Impact_of_School_Closures_on_the_Attainment_Gap.pdf) [Cyrchwyd 26 Mehefin 2021]
- Crane, L., Adu, F., Arocas, F., Carli, R., Eccles, S., Harris, S., Jardine, J., Phillips, C., Piper, S., Santi, L. & Sartin, M., (2021). Vulnerable and forgotten: The impact of the COVID-19 pandemic on autism special schools in England. In *Frontiers in Education*, 6, 175. <https://doi.org/10.3389/feduc.2021.629203>
- Domingue, B. W., Dell, M., Lang, D., Silverman, R., Yeatman, J. & Hough, H. (2022). The Effect of COVID on Oral Reading Fluency During the 2020–2021 Academic Year. *AERA Open*, 8. DOI: <https://doi.org/10.1177/23328584221120254>
- Eivers, E., Worth, J. & Ghosh, A. (2020). Home learning during Covid-19: findings from the Understanding Society longitudinal study. Slough: NFER. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.nfer.ac.uk/home-learning-during-covid-19-findings-from-the-understanding-society-longitudinal-study/> [Cyrchwyd 30 Mehefin 2022]
- Estyn (2021). Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant 2020-21. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/2021-11/Estyn%20Annual%20Report%202020-2021.pdf> [Cyrchwyd 30 Mehefin 2022]
- Evans, G. (2022). Back to the future? Reflections on three phases of education policy reform in Wales and their implications for teachers. *Journal of educational change*, 23(3), 371-396. DOI: <https://doi.org/10.1007/s10833-021-09422-6>

- Fountas, I.C. & Pinnell, G.S. (1996). Guided reading: Good first teaching for all children. Portsmouth, NH: Heinemann.
- Furlong, L., Serry, T., Bridgman, K. & Erickson, S. (2021). An evidence-based synthesis of instructional reading and spelling procedures using telepractice: A rapid review in the context of COVID-19. *International Journal of Language & Communication Disorders*, 56(3), 456-472. DOI: <https://doi.org/10.1111/1460-6984.12619>
- Greene Brabham, E. & Lynch-Brown, C. (2002). Effects of teachers' reading-aloud styles on vocabulary acquisition and comprehension of students in the early elementary grades. *Journal of Educational Psychology*, 94(3), 465–473. DOI: <https://doi.org/10.1037/0022-0663.94.3.465>
- Grimm, P. (2010). Social desirability bias. *Wiley international encyclopaedia of marketing*. DOI: <https://doi.org/10.1002/9781444316568.wiem02057>
- Harvey-Jordan, S. & Long, S. (2001). The process and the pitfalls of semi-structured interviews: The journal of the health visitors' association. *Community Practitioner*, 74(6), 219. Ar gael yn: <http://ezproxy.bangor.ac.uk/login?url=https://www.proquest.com/scholarly-journals/process-pitfalls-semi-structured-interviews/docview/213313284/se-2?accountid=14874> [Cyrchwyd 30 Ebrill 2021]
- Hornby, G. & Blackwell, I. (2018). Barriers to parental involvement in education: An update. *Educational review*, 70(1), 109-119. DOI: <https://doi.org/10.1080/00131911.2018.1388612>
- EEF (2002). Best evidence on impact or COVID-19 on pupil attainment. Ar gael yn: <https://educationendowmentfoundation.org.uk/guidance-for-teachers/covid-19-resources/best-evidence-on-impact-of-covid-19-on-pupil-attainment> [Cyrchwyd 24 Ebrill 2021]
- Hulme, M., Beauchamp, G., Clarke, L. & Hamilton, L. (2021). Collaboration in times of crisis: leading UK schools in the early stages of a pandemic. *Leadership and Policy in Schools*, 22(1), 1-20. DOI: <https://doi.org/10.1080/15700763.2021.1917623>
- Kelle, U. (2006). Combining qualitative and quantitative methods in research practice: purposes and advantages. *Qualitative research in psychology*, 3(4), 293-311. DOI: [10.1177/1478088706070839](https://doi.org/10.1177/1478088706070839)

- Lucas, M., Nelson, J. & Sims, D. (2020). Schools' Responses to COVID-19: Pupil Engagement in Remote Learning. *National Foundation for Educational Research*. Ar gael yn: <https://www.nfer.ac.uk/schools-responses-to-covid-19-pupil-engagement-in-remote-learning/> [Cyrchwyd 10 Gorffennaf 2022]
- Luiten, A., Hox, J. & de Leeuw, E. (2020). Survey Nonresponse Trends and Fieldwork Effort in the 21st Century: Results of an International Study across Countries and Surveys. *Journal of Official Statistics*, 36(3) 469-487. <https://doi.org/10.2478/jos-2020-0025>
- Ludewig, U., Kleinkorres, R., Schaufelberger, R., Schlitter, T., Lorenz, R., König, C., Frey, A. & McElvany, N. (2022). COVID-19 Pandemic and Student Reading Achievement—Findings from a School Panel Study. *Frontiers in Psychology*, 13. DOI: <https://doi.org/10.3389/fpsyg.2022.876485>
- Montacute, R. & Cullinane, C. (2021). Learning in Lockdown. Research Brief. *Sutton Trust*. Ar gael yn: <https://www.suttontrust.com/our-research/learning-in-lockdown/> [Cyrchwyd 4 Mawrth 2021]
- Nash, H., Clarke, P., Davies, C., Hart, P., Homer, M. & Mathieson, R. (2022). Progress of children through reception and year 1 during COVID-19 school disruption. <https://eprints.whiterose.ac.uk/183418/1/ickle-fr2-compressed.pdf>
- National Autism society (2021). Left stranded: The impact of coronavirus on autistic people and their families in the UK Ar gael yn: <https://pearsfoundation.org.uk/wp-content/uploads/Left-Stranded-Report-Autism-Covid-2020.pdf> [Cyrchwyd 5 Mai 2021]
- National Education Union (2023). State of Education: Recruitment and Retention. Ar gael yn: <https://neu.org.uk/press-releases/state-education-recruitment-and-retention> [Cyrchwyd Ebrill 7 2023]
- NFER (2010). PISA 2009: Achievement of 15-year-olds in Wales. NFER. Ar gael yn: <https://www.nfer.ac.uk/publications/npdz02/npdz02.pdf> [Cyrchwyd Ebrill 30 2021]
- O'Hagan, B. & Kingdom, S. (2020). Experiences of children with special educational needs and disabilities and their families in the United Kingdom during the coronavirus pandemic. *Tizard Learning Disability Review*, 25(4), 229-235 DOI: <https://doi.org/10.1108/TLDR-09-2020-0025>

- Panchal, U., Salazar de Pablo, G., Franco, M., Moreno, C., Parellada, M., Arango, C. & Fusar-Poli, P. (2021). The impact of COVID-19 lockdown on child and adolescent mental health: systematic review. *European child & adolescent psychiatry*, 1-27. DOI: <https://doi.org/10.1007/s00787-021-01856-w>
- Paulauskaite, L., Farris, O., Spencer, H. M., EPICC-ID group & Hassiotis, A. (2021). My son can't socially distance or wear a mask: how families of preschool children with severe developmental delays and challenging behavior experienced the COVID-19 Pandemic. *Journal of Mental Health Research in Intellectual Disabilities*, 14(2), 225-236. DOI: <https://doi.org/10.1080/19315864.2021.1874578>
- Rogers, G., Perez-Olivas, G., Stenfert Kroese, B., Patel, V., Murphy, G., Rose, J., Cooper, V., Langdon, P.E., Hiles, S., Clifford, C. & Willner, P. (2021). The experiences of mothers of children and young people with intellectual disabilities during the first COVID-19 lockdown period. *Journal of Applied Research in Intellectual Disabilities*, 34(6), 1421-1430. DOI: <https://doi.org/10.1111/jar.12884>
- Rose, J. (2006). Independent review of the teaching of early reading. *Department for education*.
- Rose, J. (2009). Independent review of the primary curriculum: Final report. *Department for education*.
- Rose, S., Twist, L., Lord, P., Rutt, S., Badr, K., Hope, C. & Styles, B. (2021). Impact of school closures and subsequent support strategies on attainment and socio-emotional wellbeing in Key Stage 1: Interim Paper 1. *Education Endowment Foundation, National Foundation for Educational Research, London*. Ar gael yn: <https://educationendowmentfoundation.org.uk/projects-and-evaluation/projects/nfer-impact-of-school-closures-and-subsequent-support-strategies-on-attainment-and-socioemotional-wellbeing-in-key-stage-1> [Cyrchwyd 29 Medi 2021]
- SEN Policy Research Forum (2021). Learning from the COVID crisis for educating children and young people with SEN/disabilities, SEN Policy Research Forum Seminar. *Journal of Research in Special Educational Needs*, 21(2), 168–184. DOI: <https://doi.org/10.1111/1471-3802.12513>

- Shenton, A. K. (2004). Strategies for ensuring trustworthiness in qualitative research projects. *Education for information*, 22(2), 63-75. DOI: <https://doi.org/10.3233/EFI-2004-22201>
- Sibieta, L. & Cottell, J. (2020). Education policy responses across the UK to the pandemic. London: Education Policy Institute. Ar gael yn: <https://epi.org.uk/wp-content/uploads/2020/10/UK-Education-Policy-Response-Pandemic-EPI.pdf> [Cyrchwyd 16 Mawrth, 2022]
- Sibieta, L., & Cottell, J. (2021). Education reopening and catch-up support across the UK. London: Education Policy Institute. Ar gael yn: <https://epi.org.uk/publications-and-research/reopening-catch-up-support-uk/> [Cyrchwyd 7 Ebrill, 2023]
- Sideropoulos, V., Dukes, D., Hanley, M., Palikara, O., Rhodes, S., Riby, D. M., Samson, A.C. & Van Herwegen, J. (2021). The impact of COVID-19 on anxiety and worries for families of individuals with special education needs and disabilities in the UK. *Journal of autism and developmental disorders*, 52(6), 2656-2669. DOI: <https://doi.org/10.1007/s10803-021-05168-5>
- Singal, P. (2020) A Peep inside an Online Pre-Primary Classroom during COVID-19 Times: Some Reflections. Ar gael yn: https://www.researchgate.net/profile/Pooja-Singal/publication/361787233_A_Peep_inside_an_Online_Pre-Primary_Classroom_during_COVID-19_Times_Some_Reflections/links/62c52361db1d233df1cca2ca/A-Peep-inside-an-Online-Pre-Primary-Classroom-during-COVID-19-Times-Some-Reflections.pdf [Cyrchwyd 30 Mawrth 2021]
- Sipe, L.R. (2000). The construction of literary understanding by first and second graders in oral response to picture storybook read-alouds. *Reading Research Quarterly*, 35(2), 252– 275. DOI: <https://doi.org/10.1598/RRQ.35.2.4>
- StatsCymru (2020). Canlyniadau lefel cenedlaethol, yn ôl pwnc, blwyddyn a rhyw. [Ar-lein] Ar gael yn: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage->

- [3-Core-Subjects/nationallevelresults-by-subject-year-gender](#). [Cyrchwyd 20 Chwefror 2023].
- StatsCymru (2020). Canlyniadau lefel cenedlaethol, yn ôl pwnc, blwyddyn a darpariaeth AAA (Anghenion Addysgol Arbennig). [Ar-lein] Ar gael yn: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-2/nationallevelresults-by-subject-year-sen>. [Cyrchwyd 20 Chwefror 2023].
- Stoetzel, L. & Shedrow, S. J. (2021). Making the Move Online: Interactive Read-Alouds for the Virtual Classroom. *The Reading Teacher*, 74(6), 747-756. DOI: <https://doi.org/10.1002/trtr.2006>
- Sun, B., Loh, C. E. & Nie, Y. (2021). The COVID-19 school closure effect on students' print and digital leisure reading. *Computers and Education Open*, 2, 100033. DOI: <https://doi.org/10.1016/j.caeo.2021.100033>
- Sun, Y., Wang, T. H. & Wang, L. F. (2021). Implementation of web-based dynamic assessments as sustainable educational technique for enhancing reading strategies in English class during the covid-19 pandemic. *Sustainability*, 13(11), 5842. DOI: <https://doi.org/10.3390/su13115842>
- The Learning Institute (2021). Reading: intervention work. Ar gael yn: https://www.learninginstitute.co.uk/_site/data/files/users/5/files/DC144829256B1ED7D02EFB5B350A68B1.pdf [Cyrchwyd 13 Mai 2022]
- Thomas, L. (2020). How can we use strategies to encourage engagement, alongside the explicit teaching of vocabulary, in order to support disadvantaged, SEND learners to improve their descriptive writing? *English in Education*, 54(3), 285-298. DOI: <https://doi.org/10.1080/04250494.2020.1794810>
- Toseeb, U., Asbury, K., Code, A., Fox, L. & Deniz, E. (2020). Supporting families with children with special educational needs and disabilities during COVID-19. DOI: <https://doi.org/10.31234/osf.io/tm69k>
- Trelease, J. (2019). Jim Trelease's read-aloud handbook (8th ed.; C. Giorgis, Ed.). New York, NY: Penguin.
- Twist, L., Jones, E. & Treleaven, O. (2022). The Impact of Covid-19 on pupil attainment. NFER: Slough. Ar gael yn:

https://www.nfer.ac.uk/media/4876/the_impact_of_covid_19_on_pupil_attainment.pdf [Cyrchwyd 25 Mehefin]

Waters-Davies, J., Davies, P., Underwood, C. & Lloyd-Williams, S. (2021). Exploring the impact of the Covid-19 pandemic on learners in Wales. Ar gael yn: https://repository.uwtsd.ac.uk/id/eprint/1827/3/Waters-Davies%2C%20J%20FINAL%20Exploring%20the%20Impact%20of%20the%20COVID-19%20Pandemic%20on%20Learners%20in%20Wales_.pdf [Cyrchwyd 12 Medi]

William, T. & Stéphan, V. L. (2021). *Schooling During a Pandemic: The Experience and Outcomes of Schoolchildren During the First Round of COVID-19 Lockdowns*. OECD Publishing. DOI: <https://doi.org/10.1787/1c78681e-en>

Llywodraeth Cymru (2019). Llythrennedd a Chyfathrebu. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/languages-literacy-and-communication/designing-your-curriculum> [Cyrchwyd 30 Medi 2022]

Llywodraeth Cymru (2021). Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a dilyniant dysgwyr. Ar gael yn: <https://gov.wales/renew-and-reform-supporting-learners-wellbeing-and-progression> [Cyrchwyd 30 Medi 2022]

Atodiadau

ATODIAD A: Arolwg ysgolion prif ffrwd

ATODIAD B: Arolwg ysgolion ADY

ATODIAD C: Llinell amser gweledol y ddau brif gyfnod clo

ATODIAD D: Tablau Ychwanegol

ATODIAD E: Data gyda Chyfwng Hyder (arolwg ysgolion prif ffrwd)

ATODIAD A: Arolwg ysgolion prif ffrwd

Adran 1: Arweinwyr Llythrennedd i'w chwblhau

Gwybodaeth ysgol

Rhowch enw a sir eich ysgol os gwelwch yn dda. Nodwch, ni fydd eich ysgol yn cael ei henwi nac yn adnabyddadwy mewn unrhyw adroddiad ar y gwaith ymchwil; byddwn ond yn defnyddio'r wybodaeth hon i gasglu manylion ychwanegol sy'n ymwneud â'ch ysgol ac i sicrhau y gallwn gydgyssylltu ymatebion o fewn eich ysgol (e.e., arweinwyr llythrennedd ac athrawon dosbarth). Dim ond y tîm ymchwil uniongyrchol ym Mhrifysgol Bangor fydd â mynediad i'r wybodaeth hon.

Enw:

Sir:

Beth yw eich rôl yn yr ysgol? Dewiswch bob un sy'n berthnasol

Prifathro

Dirprwy Bennaeth

Arweinydd Llythrennedd

Cydlynnydd ADY

Athro dosbarth CA1

Athro dosbarth CA2

Arall (nodwch)

Yn eich ysgol, a ydych chi'n addysgu darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg? Ydw Nac ydw (Saesneg yn unig) Na (Cymraeg yn unig)

Ym mha grŵp blwyddyn mae addysgu darllen yn dechrau yn Gymraeg? Derbynn B1 B12 B13 B14 Amherthnasol

Ym mha grŵp blwyddyn mae addysgu darllen yn dechrau yn Saesneg? Derbynn B1 B12 B13 B14 Amherthnasol

Cyfnod clo cyntaf, Mawrth i Orffennaf 2020

Bydd y set ganlynol o gwestiynau yn gofyn ichi feddwl yn ôl i'r cyfnod clo Covid-19 cyntaf a ddigwyddodd rhwng mis Mawrth 2020 a mis Gorffennaf 2020. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd yn ofynnol i bob ysgol ledled Cymru gau ac eithrio darpariaeth ar gyfer plant bregus a phlant gweithwyr hanfodol.

Wrth "yn yr ysgol", rydym yn golygu dysgwyr o'ch lleoliad addysgol a fynychodd ddarpariaeth yn ystod y cyfnodau clo naill ai yn eich safle eich hun neu mewn lleoliad gwahanol.

C1. Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, os oedd dysgwyr yn cael eu dosbarthu fel rhai yn yr ysgol, a oeddent yn mynychu'r ysgol ei hun, neu a oedd dysgwyr yn mynd i safle gwahanol?

C2. a) Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, tua pha gyfran o'ch dysgwyr oedd fel arfer yn yr ysgol?

Llai na 25%
25-50%
51-75%
76%-100%

b) A oedd hyn yn amrywio ar draws y Cyfnodau Allweddol?

Na, roedd y gyfran yn debyg ar draws y Cyfnodau Allweddol

Oedd, roedd y gyfran yn uwch yn CA1

Oedd, roedd y gyfran yn uwch yn CA2

C3. Yn ystod yr un cyfnod, a oedd nodweddion y dysgwyr a oedd fel arfer yn yr ysgol yn wahanol i rai cyn y pandemig? (dewiswch bob un sy'n berthnasol ac ychwanegwch unrhyw wybodaeth ychwanegol yn y blwch a ddarparwyd).

Na, roedd y garfan yr un peth ar y cyfan

Oedd, roedd cyfran uwch yn ddysgwyr a oedd yn cael trafferth darllen

Oedd, roedd cyfran uwch yn blant a oedd derbyn gofal

Oedd, roedd cyfran uwch yn blant bregus

Oedd, roedd cyfran uwch yn ddysgwyr gyda Chynllun Ymddygiad Unigol

C4. A oedd unrhyw wahaniaethau eraill yn y garfan o ddysgwyr a oedd gennych yn yr ysgol yn ystod y cyfnod hwn yr hoffech eu crybwyll?

C5. Yn ystod yr un cyfnod, os cafodd unrhyw ddysgwyr eu blaenoriaethu ar gyfer lle mewn ysgol, dewiswch yr opsiynau perthnasol isod (gallwch ddewis pob un sy'n berthnasol)

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Dysgwyr gyda CAU/CDU

Plant sy'n derbyn gofal

Plant bregus

Plant gweithwyr allweddol

Arall (*nodwch*)

Ail gyfnod clo, Ionawr - Mawrth 2021

Bydd y set ganlynol o gwestiynau yn gofyn ichi feddwl yn ôl i'r ail gyfnod clo Covid-19 a ddigwyddodd rhwng Ionawr a Mawrth 2021. Unwaith eto roedd yn ofynnol cau ysgolion ledled Cymru ac eithrio darpariaeth ar gyfer plant bregus a phlant gweithwyr hanfodol.

Wrth "yn yr ysgol", rydym yn golygu dysgwyr o'ch lleoliad addysgol a fynychodd ddarpariaeth yn ystod y cyfnodau clo naill ai yn eich safle eich hun neu mewn lleoliad gwahanol.

C1. Yn ystod yr ail gyfnod clo, os oedd dysgwyr yn cael eu dosbarthu fel rhai yn yr ysgol, a oeddent yn mynychu'r ysgol ei hun, neu a oedd dysgwyr yn mynd i safle gwahanol?

C2. Yn ystod yr ail gyfnod clo, tua pha gyfran o'ch dysgwyr oedd fel arfer yn yr ysgol?

Llai na 25%
25-50%
51-75%
76%-100%

C2. Yn ystod yr ail gyfnod clo, a oedd nodweddion y dysgwyr yr oeddech yn gweithio gyda nhw fel arfer yn yr ysgol yn wahanol i rai cyn y pandemig? (dewiswch bob un sy'n berthnasol ac ychwanegwch unrhyw wybodaeth ychwanegol yn y blwch a ddarperir).

Na, roedd y garfan yr un peth ar y cyfan

Oedd, roedd cyfran uwch yn ddysgwyr a oedd yn cael trafferth darllen

Oedd, roedd cyfran uwch yn blant a oedd derbyn gofal

Oedd, roedd cyfran uwch yn blant bregus

Oedd, roedd cyfran uwch yn ddysgwyr gyda Chynllun Ymddygiad Unigol

C3. A oedd unrhyw wahaniaethau eraill yn y garfan o ddysgwyr a oedd gennych yn yr ysgol yn ystod y cyfnod hwn yr hoffech eu crybwyll?

C4. Yn ystod yr un cyfnod, os cafodd unrhyw ddysgwyr eu blaenoriaethu ar gyfer lle mewn ysgol, dewiswch yr opsiynau perthnasol isod (gallwch ddewis pob un sy'n berthnasol)

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Dysgwyr gyda CAU/CDU

Plant sy'n derbyn gofal

Plant gweithwyr allweddol

Plant bregus

Arall (*nodwch*)

Effaith ar gyrhaeddiad darllen

Yn y cwestiynau canlynol, mae gennym ddiddordeb yn effaith y pandemig ar gyrhaeddiad darllen yn eich ysgol. Er mwyn i ni ddeall maint yr effaith a'r heriau y mae ysgolion a dysgwyr yn eu hwynebu, a fydddech cystal â rhoi cymaint o fanylion ag y gallwch.

C1. Sut mae'r aflonyddwch ers mis Mawrth 2020 wedi effeithio ar sgoriau darllen yn eich ysgol?

C2. A yw unrhyw grwpiau blwyddyn neu ddysgwyr penodol wedi cael eu heffeithio'n fwy nag eraill? (E.e., darllenwyr sy'n dechrau, dysgwyr â CDU/CAU ar gyfer darllen, dysgwyr sy'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd) Os felly, ym mha ffyrdd?

Edrych i'r dyfodol

Wrth i ni wella o aflonyddwch COVID-19, hoffem glywed eich barn ar yr hyn sydd angen digwydd nesaf. Bydd canfyddiadau'r arolwg hwn yn cael eu rhannu'n uniongyrchol â gweinidogion Llywodraeth Cymru (yn ddiennw), felly mae hyn yn gyfle i leisio'ch barn a chael effaith uniongyrchol ar yr hyn sy'n cael ei flaenoriaethu a pha gymorth a ddarperir.

C1. Beth ydych chi'n meddwl yw'r blaenoriaethau ar gyfer cefnogi sgiliau darllen eich dysgwyr?

C2. Pa gymorth byddai o'r budd mwyaf i chi a'ch dysgwyr yn ystod y blynyddoedd nesaf?

Adran 2: Athro CA1 i'w chwblhau
Taflen Wybodaeth i Gyfranogwyr + gwybodaeth ffurflen Ganiatâd i ymddangos gyntaf

Rhowch enw a sir eich ysgol os gwelwch yn dda. *Nodwch, ni fydd eich ysgol yn cael ei henwi nac yn adnabyddadwy mewn unrhyw adroddiad ar y gwaith ymchwil; byddwn ond yn defnyddio'r wybodaeth hon i gasglu manylion ychwanegol sy'n ymwneud â'ch ysgol ac i sicrhau y gallwn gydgyssylltu ymatebion o fewn eich ysgol (e.e., arweinwyr llythrennedd ac athrawon dosbarth).*

Enw:

Sir:

Beth yw eich rôl yn yr ysgol? Dewiswch bob un sy'n berthnasol

Prifathro
Dirprwy Bennaeth
Arweinydd Llythrennedd
Cydlynnydd ADY
Athro dosbarth CA1
Athro dosbarth CA1
Arall (nodwch)

Ymarferion darllen cyn y pandemig

Wrth i ni ddechrau'r tymor newydd hwn mae'n nodi'r ail flwyddyn ers y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020. Yn yr adran hon, hoffem i chi feddwl yn ôl i'r cyfnod ychydig cyn y pandemig, o gwmpas tymor yr Hydref 2019.

C1. a) Beth oedd y prif raglenni ac ymyriadau darllen Cymraeg a ddefnyddiwyd yn CA1?

Os gwnaethoch ddefnyddio rhaglen a ddatblygwyd gan yr ysgol, nodwch pa sgiliau darllen a dargedir (e.e., sgiliau datgodio, rhuglder darllen, dealltwriaeth iaith, strategaethau darllen a deall, ac ati)

b) Beth oedd y prif raglenni ac ymyriadau darllen Saesneg a ddefnyddiwyd yn CA1?

Os gwnaethoch ddefnyddio rhaglen a ddatblygwyd gan yr ysgol, nodwch pa sgiliau darllen a dargedir (e.e., sgiliau datgodio, rhuglder darllen, dealltwriaeth iaith, strategaethau darllen a deall, ac ati)

c) Pa rai o'r rhaglenni neu ymyriadau a restrir sy'n cynnwys cyfarwyddyd â chymorth cyfrifiadur (naill ai trwy gyfrifiadur, gliniadur neu dabled)?

Arferion darllen rhwng Mawrth a Gorffennaf 2020 (cyfnod clo cyntaf)

Bydd y set ganlynol o gwestiynau yn gofyn ichi feddwl yn ôl i'r cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020, yn ystod anterth y cyfnod clo cyntaf ac aflonyddwch ysgol. Gwyddom fod rhai dysgwyr yn dal i fynychu'r ysgol yn ystod y cyfnod hwn (e.e. plant gweithwyr

allweddol), fodd bynnag, ar gyfer yr adran hon byddwn yn eich holi am ddysgwyr yng **Nghyfnod Allweddol 1 a oedd yn derbyn eu haddysg gartref.**

C1.

- A. **A. Sut wnaethoch chi barhau i weithredu eich darpariaeth ddarllen i'r dysgwyr a oedd yn derbyn eu haddysg gartref?**
- B. **B. Pa addasiadau oedd eu hangen i gyflwyno'r ddarpariaeth hon i ddysgwyr o gartref?**
- C. **C. I ba raddau oeddech chi'n gallu parhau i wahaniaethu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr a oedd yn cael trafferth darllen ac a oedd yn dysgu o gartref?**

C2. Pa raglenni/dulliau newydd a gyflwynwyd ar gyfer dysgwyr o gartref yn ystod y cyfnod hwn? Gall hyn gynnwys rhaglenni ar-lein / teuluoedd yn cael mynediad i adnoddau darllen corfforol o'r ysgol.

